



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

www.cymru.gov.uk

Adroddiad y Grŵp Gorchwyl a Gorffen Llywodraethu Ysgolion

Tachwedd 2013

Cynnwys

| | |
|--|-----------|
| Rhagair | 2 |
| Crynodeb gweithredol | 3 |
| 1. Cyd-destun yr adolygiad hwn | 7 |
| 2. Cylch gorchwyl ac aelodaeth | 8 |
| 3. A yw system llywodraethu ysgolion bresennol Cymru yn 'addas at y diben'? | 10 |
| 4. Materion yn ymwneud â'r fframwaith llywodraethu yng Nghymru | 14 |
| 5. Rhannu cyfrifoldebau o fewn y system addysg bresennol | 26 |
| 6. Hyfforddi llywodraethwyr | 27 |
| 7. Clercod i'r cyrff llywodraethu | 30 |
| 8. Gwybodaeth | 31 |
| 9. Recriwtio llywodraethwyr | 34 |
| 10. Gwella cydnabyddiaeth corff llywodraethu | 35 |
| 11. Crynodeb | 37 |
| Cyfeiriadau | 39 |
| Atodiad I: Cymdeithas Genedlaethol y Llywodraethwyr – templed archwilio sgiliau | 41 |
| Atodiad II: Templed cynllun gweithredu gwella ysgol | 44 |
| Atodiad III: Sut mae OFSTED yn barnu perfformiad corff llywodraethu | 53 |
| Atodiad IV: Templed arfarnu aelodau bwrdd unigol | 54 |

Rhagair

Cafodd y grŵp hwn ei sefydlu er mwyn ystyried pa mor addas at y diben oedd y fframwaith llywodraethu ysgolion yng Nghymru a gwneud argymhellion i'r Gweinidog Addysg a Sgiliau o ran ei ddiwygio. Bu hon yn adeg ddelfrydol i gynnal y gwerthusiad hwn gan fod adolygiad Hill o faterion ehangach yn ymwneud ag addysg yng Nghymru yn mynd rhagddo hefyd. Felly, cafwyd cyfle i ddylanwadu ar arferion llywodraethu a hyrwyddo ymhellach yr agenda wella.

Hoffem ddiolch i bob aelod o'r grŵp am ei gyfraniad hynod werthfawr a defnyddiol at yr adolygiad llywodraethu hwn. Diolchaf yn arbennig i Stephen Adamson, Stephen Morris, Hugh Patrick, David Rees a Geraint Rees a hefyd i'r cyn-aelodau Glyn Mathias, Marc Belli a Delvin Baker. Gwnaethom weithio'n dda fel grŵp ac rwy'n siŵr y gwnawn weld eisiau ein cyfarfodydd. Cafwyd llawer o drafodaethau ynghylch llywodraethu gyda materion yn cael eu codi, eu herio, eu negodi a'u cymeradwyo. Diolch hefyd i'n hysgrifenyddiaeth yn Llywodraeth Cymru - Sarah Jarrold a Neil Welch - sydd wedi bod o gymorth mawr o ran cyd-destun a gwaith cydgysylltu a chynllunio.

Nodir prif argymhellion yr adolygiad yn gynnar yn yr adroddiad. Mae'r rhain yn canolbwyntio ar wella ein system bresennol ar gyfer llywodraethu ysgolion ymhellach. Ar y cam hwn, mae'n bwysig cydnabod y gwaith hollbwysig a gwerthfawr a wneir gan lywodraethwyr a'u cyrff llywodraethu er mwyn sicrhau gwelliannau a hyrwyddo'r addysg orau i'n plant. Fel gwirfoddolwyr, maent yn barod i roi o'u hamser ac mae'r rôl a chwaraeir ganddynt i gyflawni'r agenda gwella ysgolion ehangach yn un bwysig. Mae'r adolygiad hwn yn ceisio cydnabod eu rôl a'i hatgyfnerthu wrth gyflawni gwell canlyniadau i ddisgyblion ysgol yng Nghymru.

Catherine Farrell,

Cadeirydd, Grŵp Gorchwyl a Gorffen Llywodraethu Ysgolion

Crynodeb gweithredol

Mae llywodraethwyr ysgolion yn chwarae rhan bwysig yn y gwaith o lywodraethu ac arwain ysgolion. Mae'n amlwg mai'r ysgolion gorau yw'r rhai sy'n cyfuno systemau llywodraethu da ag amgylchedd uwch reoli da. Mae'r trefniadau presennol o ran llywodraethu ysgolion wedi bod ar waith ers amser hir ac mae'r adolygiad hwn wedi rhoi cyfle inni adolygu'r graddau y maent yn briodol yn 2013 a thu hwnt. Rhydd y ffocws manylach ar yr angen i sicrhau'r perfformiad addysgol gorau posibl mewn ysgolion yng Nghymru y cyd-destun ar gyfer yr adolygiad hwn.

Mae'r system bresennol ar gyfer llywodraethu ysgolion yng Nghymru wedi bod ar waith ers peth amser. Ceir agweddau pwysig ar y system hon y gellid eu diwygio fel bod y broses o lywodraethu ysgolion yn hwyluso ac yn hyrwyddo'r agenda wella yn fwy. Mae angen i gyrrff llywodraethu gyflawni eu rôl lywodraethu mewn ffordd fwy medrus a hefyd mae angen iddynt allu recriwtio'n ehangach fel bod yr unigolion gorau'n cyfrannu at y gwaith o lywodraethu ysgolion.

Croesewir penderfyniad Llywodraeth Cymru i gyflwyno hyfforddiant gorfodol i lywodraethwyr a fydd yn elfen bwysig o'r daith wella ar gyfer ysgolion a'u cyrrff llywodraethu. Mae'r adolygiad hwn wedi ceisio adlewyrchu cyfrifoldebau cyrrff llywodraethu a hefyd eu hatebolrwydd ac mae'n gwneud nifer o argymhellion mewn perthynas â'r rhain. O ystyried y ddau beth hyn, cynigiwn newid o'r model rhanddeiliaid presennol i fodel llywodraethu cymysg. Nodir bod y model 'Rhanddeiliaid a Mwy' hwn yn briodol yng nghyd-destun addysg yng Nghymru lle mae'r diwylliant cydweithredu wedi'i werthfawrogi'n hanesyddol (Farrell a Law, 1999).

Mae'r adolygiad hwn o'r system llywodraethu ysgolion wedi'i gynnal yn ystod adolygiad Hill (2013) ac ar ei ôl a chefnogwn y farn y dylid argymell ffedereiddio ysgolion lle y bo'n briodol. Fodd bynnag, efallai na fydd y model hwn yn briodol i bob ysgol ym mhob rhan o Gymru. Felly, mae ein hargymhellion ar gyfer llywodraethu ysgolion yn adlewyrchu'r ysgol unigol sydd â'i chorff llywodraethu ei hun a hefyd y corff llywodraethu sy'n gyfrifol am fwy nag un ysgol.

Nodir prif argymhellion y grŵp hwn isod:

Argymhelliad 1: Newid i ddull llywodraethu Rhanddeiliaid a Mwy

O dan y model llywodraethu hwn, rydym yn cadw'r cyfraniad gwerthfawr a wneir gan yr amrywiaeth o randdeiliaid ac yn awgrymu bod yr agwedd 'a Mwy' yn rhoi'r hyblygrwydd a'r rhyddid i gyrrff llywodraethu recriwtio llywodraethwyr ychwanegol ar sail anghenion sgiliau.

Argymhelliad 2: Hyblygrwydd o ran Strwythur Cyrff Llywodraethu

- A. Mae strwythur cyrff llywodraethu yn hyblyg, gyda rhwng naw a 21 o lywodraethwyr yn aelodau;
- B. Mae corff llywodraethu ysgol ffederal yn cynnwys rhwng naw a 25 o aelodau;
- C. Ceir 'cworwm' o saith llywodraethwr neu 50% o leiaf, p'un bynnag sydd fwyaf yng nghyfarfodydd y corff llywodraethu;
- D. Ni ddylai mwy na thraean o aelodau corff llywodraethu fod yn rhieni nac yn aelodau o staff yr ysgol;
- E. Ni ddylai athrawon nac aelodau eraill o staff sydd â phlant mewn ysgol gyflawni rôl rhiant ar y corff llywodraethu;
- F. Caiff holl aelodau'r corff llywodraethu eu penodi'n ffurfiol ganddo.

Argymhelliad 3: Rôl Strategol ac Atebolrwydd

- A. Dylai cyrff llywodraethu gyflwyno 'Adroddiad Blynyddol' ar berfformiad yr ysgol;
- B. Dylai Llywodraeth Cymru gynnal adolygiad o gynnwys Adroddiad Blynyddol corff llywodraethu ysgol;
- C. Dylai penaethiaid lunio adroddiad tymhorol i'w ddsbarthu cyn cyfarfodydd y corff llywodraethu y dylid ei gyflwyno yn y cyfarfodydd. Dylai gynnwys sefyllfa bresennol yr ysgol o ran nodau ac amcanion; ystyriaeth feirniadol o gyflawniadau'r ysgol tuag at gyflawni'r nodau ac amcanion hynny; adolygiad o ddata ar berfformiad; lefelau absenoldeb a phresenoldeb; materion staffio;
- D. Mae angen i lywodraethwyr chwarae mwy o ran yn arolygiad ffurfiol yr ysgol;
- E. Mae Estyn yn adolygu'r agweddau a fernir gan Ofsted mewn arolygiad ysgol ac yn ymateb i'r Gweinidog yn uniongyrchol ynghylch priodolrwydd hyn fel rhan o'r gwaith o arolygu ysgolion yng Nghymru.

- F. Mae gwefan 'Fy Ysgol Leol' yn cynnwys tabiau ychwanegol sy'n rhoi rhagor o wybodaeth am ysgol;

Argymhelliad 4: Rhannu Cyfrifoldebau o fewn y System Bresennol

Mae angen eglurder ynghylch cyfrifoldebau penaeithiaid a chyrff llywodraethu gan ganolbwyntio'n benodol ar benodi a diswyddo staff. Mae angen i'r mater hwn gael ei ddatrys gan Lywodraeth Cymru lle mae angen adolygu'r rheoliadau Cylch Gorchwyl.

Argymhelliad 5: Hyfforddi Llywodraethwyr

- A. Dylai llywodraethwyr a chadeiryddion newydd gael eu mentora gan lywodraethwyr profiadol;
- B. Os caiff argymhelliad adolygiad Hill ei dderbyn gan y Gweinidog, dylai llywodraethwyr sy'n ymarferwyr arweiniol gynorthwyo cadeiryddion newydd;
- C. Ystyried hyfforddi corff llywodraethu cyfan neu glwstwr fel model ar gyfer darparu hyfforddiant;
- D. Hunanwerthusiad ac adolygiad cyfnodol ar gyfer y corff llywodraethu a llywodraethwyr unigol;
- E. Dylai Llywodraeth Cymru greu templed ar gyfer gwaith hunanwerthuso ac adolygu llywodraethwyr unigol a chyrff llywodraethu;
- F. Cynhelir Archwiliad Sgiliau yn rheolaidd.

Argymhelliad 6: Clercod a Chyrff Llywodraethu

Er mwyn cydnabod rôl broffesiynol clercod, mae angen sicrhau bod eu perfformiad yn cael ei werthuso a'i asesu gan gadeirydd y llywodraethwyr a'r pennaeth.

Argymhelliad 7: Gwybodaeth

- A. Dylai'r consortia rhanbarthol roi gwybodaeth i gyrff llywodraethu am berfformiad cymharol ac arfer da ledled Cymru;
- B. Dylid sicrhau eglurder ynghylch y wybodaeth sydd ar gael i lywodraethwyr gan awdurdodau lleol, consortia rhanbarthol, Llywodraethwyr Cymru a Llywodraeth Cymru;
- C. Dylid sicrhau eglurder ynghylch y gwasanaeth a gynigir gan Llywodraethwyr Cymru;
- D. Dylai Llywodraethwyr Cymru godi ymwybyddiaeth o'r corff hwnnw.

Argymhelliad 8: Recriwtio Llywodraethwyr

- A. Dylai Llywodraeth Cymru hyrwyddo rôl llywodraethwyr a chodi ymwybyddiaeth o lywodraethwyr ysgolion;
- B. Dylid cynnal ymgyrch recriwtio er mwyn denu llywodraethwyr newydd;
- C. Dylai'r consortia rhanbarthol a Llywodraeth Cymru gyflwyno gwobr 'Corff Llywodraethu'r Flwyddyn'.

Argymhelliad 9: Gwella Cydnabyddiaeth Corff Llywodraethu

- A. Dylai holl gyrrff llywodraethu ysgolion Cymru fod yn gweithio tuag at wobwr Efydd Llywodraethwyr Cymru (ac Arian ac Aur wrth iddynt ddatblygu ymhellach);
- B. Dylai Llywodraethwyr Cymru weithio gyda'r awdurdod lleol neu'r consortia er mwyn helpu gyda'r broses o asesu cyrrff llywodraethu unigol ar gyfer y gwobrau.
- C. Dylai Llywodraeth Cymru godi mwy o ymwybyddiaeth o'r cynllun gwobrau.

1. Cyd-destun yr adolygiad hwn

1.1 Nid yw sail statudol llywodraethu ysgolion wedi newid rhyw lawer ers i'r Model Rheoli Ysgolion yn Lleol gael ei weithredu yng Nghymru a Lloegr o dan Ddeddf Diwygio Addysg 1988. O dan y model hwn, mae gan bob ysgol a gynhelir gorff llywodraethu er mwyn pennu cyfeiriad strategol yr ysgol a monitro a gwerthuso cynnydd. Caiff y corff llywodraethu gyllideb ysgol unigol ac mae'n gyfrifol am ddyrannu adnoddau mewn ffordd a ystyrir yn addas er mwyn cefnogi'r cyfeiriad strategol a chyflawni ei swyddogaethau'n effeithiol. Mae gan awdurdodau lleol gyfrifoldebau ehangach mewn perthynas â darpariaeth addysg yn eu hardal. Maent yn dyrannu cyllid ac yn rhoi mathau eraill o gymorth i ysgolion, maent yn gweithredu fel cyflogwr staff mewn sawl achos ac maent yn darparu gwybodaeth a hyfforddiant am ddim i lywodraethwyr er mwyn eu galluogi i gyflawni eu swyddogaethau. Mae rhywfaint o'r hyfforddiant hwn wedi dod yn orfodol ers mis Medi 2013. Llywodraeth Cymru sy'n gosod y cyd-destun cyfreithiol a pholisi y mae addysg yn gweithredu ynddo ac mae'n cynnal trosolwg o weithgareddau ac yn rhoi cyngor ac arweiniad ar arfer da ym maes llywodraethu. Mae'r fframwaith llywodraethu hwn wedi tyfu a datblygu mewn ffordd organig dros y 25 mlynedd diwethaf wrth i ysgolion a chyrrff llywodraethu gael cyfrifoldebau newydd.

1.2 Felly, diben adolygiad Grŵp Gorchwyl a Gorffen Llywodraethu Ysgolion yw cynnal asesiad annibynnol er mwyn canfod pa un a yw'r system, fel y mae wedi datblygu dros y blynyddoedd, yn dal i fod yn gytbwys, yn drefnus ac yn addas at y diben yng Nghymru a chynghori'r Gweinidog Addysg a Sgiliau yng Nghymru.

1.3 Yn ystod yr adolygiad hwn, cynhaliwyd adolygiad ehangach o addysg yng Nghymru gan Robert Hill. Cyfarfu'r grŵp â Robert Hill a chyflwynodd dystiolaeth ysgrifenedig i'r ymgynghoriad ar Ddarparu Gwasanaethau Addysg yng Nghymru yn y Dyfodol ym mis Medi 2013.

2. Cylch gorchwyl ac aelodaeth

2.1 Sefydlwyd Grŵp Gorchwyl a Gorffen Llywodraethu Ysgolion i ystyried a yw'r fframwaith llywodraethu ysgolion yng Nghymru yn addas at y diben a gwneud argymhellion i'r Gweinidog Addysg a Sgiliau ynglŷn â diwygiadau yn seiliedig ar y casgliadau a ddeilliodd o adolygiad y grŵp. Gofynnwyd iddo ganolbwyntio'n benodol ar faterion yn ymwneud â'r fframwaith llywodraethu ysgolion yng Nghymru, gan ystyried y dull o rannu cyfrifoldebau rhwng elfennau gwahanol y system, pa un a ddylid diwygio hyn ac aiddosbarthu cyfrifoldebau o fewn y system honno, a natur a graddfa'r cymorth y dylid ei roi i gyrrff llywodraethu ac eraill i'w helpu i gyflawni eu dyletswyddau yng nghyd-destun system ddiwygiedig. Yn ogystal, gofynnwyd inni ystyried yr adolygiad o Ddarparu Gwasanaethau Addysg yng Nghymru yn y Dyfodol a gynhaliwyd gan Robert Hill, yn enwedig elfennau'n ymwneud â llywodraethu ysgolion, a rhoi sylwadau ar hynny.

2.2 Cynhaliwyd yr adolygiad hwn o lywodraethu ysgolion yn ystod y 12 mis rhwng mis Tachwedd 2012 a mis Tachwedd 2013.

Mae aelodaeth Grŵp Gorchwyl a Gorffen Llywodraethu Ysgolion fel a ganlyn:

Yr Athro Catherine Farrell (Cadeirydd), Athro Rheoli Cyhoeddus, Prifysgol De Cymru
Stephen Adamson (Aelod), Cadeirydd Cymdeithas Genedlaethol y Llywodraethwyr
(Lloegr)

Stephen Morris (Aelod), Cadeirydd Llywodraethwyr Ysgol Gynradd Glasllwch,
Casnewydd

Hugh Pattrick (Aelod Cyfetholedig), Cadeirydd Llywodraethwyr Ysgol Maes-y-
dderwen, Ystradgynlais

David Rees (Aelod), Pennaeth, Ysgol Gynradd Sain Silian, Casnewydd

Geraint Rees (Aelod), Cyn-Bennaeth Ffederasiwn Glyn Derw/Llanfihangel-ar-Elái,
Caerdydd

Cyn-aelodau Grŵp Gorchwyl a Gorffen Llywodraethu Ysgolion:

Glyn Mathias (Cadeirydd), Cyn-Gadeirydd Llywodraethwyr Ysgol y Bannau, Powys

Marc Belli (Aelod), Pennaeth Ysgol Uwchradd y Forwyn Fair, Caerdydd

Delvin Baker (Aelod), Cadeirydd Llywodraethwyr Ysgol Uwchradd Cwmtawe, Pontardawe

2.3 Yn ein hadolygiad o'r system lywodraethu, cynhaliwyd sesiynau casglu tystiolaeth a gwybodaeth gydag Andrew Thomas a Richard Gordon, Cyngor Bwrdeistref Sirol Castell-nedd Port Talbot, Ian Courtney, Cadeirydd Llywodraethwyr Ffederasiwn Dartmoor, Dyfnaint a hefyd Jane Morris, Cyfarwyddwr Llywodraethwyr Cymru. Yn ogystal, gwahoddwyd unigolion a sefydliadau a oedd ynghlwm wrth lywodraethu ysgolion i gyflwyno tystiolaeth i'r grŵp. Cafwyd cyfanswm o 19 o ymatebion. Derbyniodd y grŵp yr holl fewnbynnau hyn a roddodd gyd-destun defnyddiol ar gyfer trafodaethau.

3. A yw system llywodraethu ysgolion bresennol Cymru yn 'addas at y diben'?

3.1 Mae'r model llywodraethu ysgolion presennol yng Nghymru yn seiliedig ar egwyddor cynrychioli rhanddeiliaid. Cafodd y system lywodraethu hon ei chyflwyno yn Neddf Addysg 1980, lle ehangwyd aelodaeth cyrff llywodraethu i gynnwys y rhai â 'budd' yn yr ysgol. Rhan ganolog o'r ymagwedd hon yw'r syniad y dylai ysgolion gael eu llywodraethu gan unigolion sy'n cynrychioli'r grwpiau sydd â budd yn yr ysgol. Dadleuir y bydd gan unigolion o'r fath ddiddordeb yn ymddygiad cyffredinol yr ysgol a'i pherfformiad ac felly y byddant wedi'u cymell i gyflawni eu cyfrifoldebau llywodraethu. Felly, mae cyrff llywodraethu ysgolion yn cynnwys unigolion sy'n cynrychioli grwpiau rhanddeiliaid dynodedig - athrawon ac aelodau eraill o staff yn yr ysgol, rhieni disgyblion/myfyrwyr, yr awdurdod lleol a'r gymuned ehangach.

3.2 Mae'r cyd-destun y gosodir y sefydliad ynddo yn agwedd bwysig ar y dadansoddiadau hyn. Pan gyflwynwyd y dull llywodraethu ar sail rhanddeiliaid, roedd y DU mewn cyfnod gwahanol iawn yn wleidyddol ac yn addysgol o gymharu â'r 2010au. Yn ogystal, roedd rôl a chyfrifoldebau cyrff llywodraethu yn fwy cyfyngedig na'r hyn a geir heddiw. Roedd y system yn dibynnu'n helaeth ar gefnogaeth draddodiadol awdurdodau lleol gydag ysgolion yn gweithredu o dan reolaeth lem. Dros 30 mlynedd ar ôl y ddeddfwriaeth a gyflwynodd y model rhanddeiliaid a chan hefyd adlewyrchu datganoli cyfrifoldeb am addysg, ymddengys yn gyfle gwych i adolygu'r model llywodraethu sydd ar waith mewn ysgolion yng Nghymru. Mae angen ystyried y cyd-destun newydd a hefyd ddynameg newydd y system llywodraethu ysgolion a'r effaith a gaiff ar ysgolion a llywodraethwyr. Awgryma Ranson a Crouch (2009, t.77) na fu braidd unrhyw ymdrech i ddiwygio'r system llywodraethu ysgolion gan fod y ffocws parhaus ar gyflwyno diwygiadau addysgol newydd. Bu unrhyw ddiwygiadau i'r system lywodraethu yn rhai 'darniog' ac mae'n amlwg bod angen myfyrio ar briodolrwydd y model llywodraethu.

3.3 Cynhaliwyd yr adolygiad hwn o'r system llywodraethu ysgolion yng Nghymru ar adeg debyg i'r adolygiad o rôl cyrff llywodraethu ysgolion yn Lloegr (<http://www.publications.parliament.uk/pa/cm201314/cmselect/cmeduc/365/365.pdf>). Canfyddiadau allweddol yr adolygiad hwn oedd bod cyrff llywodraethu yn cyflawni rôl hollbwysig yn y gwaith o arwain ysgolion a bod angen iddynt feddu ar y sgiliau priodol i wneud hyn yn effeithiol. Mae'r adroddiad hwn hefyd yn ymdrin â materion sy'n ymwneud â'r angen i wella'r broses lywodraethu ym mhob ysgol ac yn enwedig y rhai y tybir eu bod yn methu.

3.4 Gan dynnu ar ymchwil academaidd ar gyfer yr adolygiad hwn o 'addasrwydd at y diben', un o ganfyddiadau allweddol gwaith Farrell (2013, t. 12) ynglŷn â llywodraethu ysgolion, yw bod bellach:

“greater control and prescription from the centre about how governors should fulfil their responsibilities...less discretion for governors to focus on what they view as critical within the school and much greater emphasis on their responsibilities in relation to pupil performance and educational outcomes”.

3.5 Dengys hyn newid o atebolrwydd proffesiynol, sef y prif fath o atebolrwydd ym maes addysg yng Nghymru mewn gwaith blaenorol a wnaed gan yr awdur hwn (Farrell a Law, 1999). Mae'n amlwg y disgwylir hefyd i lywodraethwyr fod yn rhan o'r fframwaith gwella ysgolion sydd wrth wraidd agenda Llywodraeth Cymru. Tanlinellodd casgliadau Ranson et al. (2005, t.314) yn glir bwysigrwydd llywodraethu da wrth wella ysgolion. Mae'n dadlau bod “stronger performing primary schools appear to be associated with ‘executive boards’ or governing ‘bodies’ that have developed more robust practices of scrutiny, accountability and strategy. Lower performing schools are associated with weaker practices of governance, perhaps only having developed their governors merely as a consultative sounding board”. Lluniodd Ranson et al., (2005) deipoleg o fathau o gyrff llywodraethu yn amrywio o fforwm, bwrdd gwyntyllu, bwrdd gweithredol a 'chorff llywodraethu' a noda mai'r ysgolion sy'n perfformio orau yw'r rhai â model llywodraethu 'corff llywodraethu'. Yma, mae'r corff llywodraethu yn cymryd “overarching responsibility for the conduct and direction of the school. The head will be a strong professional leader, but a member rather than leader of the governing body that acts as a corporate entity. The chair will lead the agenda and the meeting. There will be systematic processes of

scrutiny and what distinguishes the governing body is the strategic leadership of the school” (Ranson et al., 2005, t.311). Mae'r canfyddiad bod llywodraethu da yn bwysig i wella ysgolion a welir yng ngwaith Ranson et al. hefyd yn ategu ymchwil bresennol ym maes llywodraethu corfforaethol (Edwards a Clough, 2005 t.4)) lle dadleuir bod llywodraethu da yn “minimises the possibility of poor organisational performance”.

3.6 Yn ogystal â'r dadleuon hyn ynghylch llywodraethu da, mae ymchwil Cornforth (2001) yn awgrymu bod pedwar ffactor pwysig yn gysylltiedig ag effeithiolrwydd bwrdd, sef:

- eglurder ynglŷn â natur ei rôl a'i gyfrifoldebau;
- y cymysgedd cywir o sgiliau;
- gweledigaeth gyffredin rhwng y bwrdd a'r rheolwyr ynghylch cyflawni'r weledigaeth;
- adolygiad cyfnodol rheolaidd o'r gydberthynas waith rhwng y bwrdd a'r rheolwyr.

3.7 Yn ei hanfod, mae'r adolygiad hwn wedi ceisio myfyrio ar y ffactorau hyn a'u cymhwyso, lle y bo'n briodol, i'r system llywodraethu ysgolion yng Nghymru. Mae'r grŵp hefyd wedi ystyried llywodraethu mewn meysydd eraill o wasanaeth cyhoeddus gan gynnwys tai a llywodraethu chwaraeon. Ym maes chwaraeon, er enghraifft, mae ymchwil Taylor ac O'Sullivan (2009) yn dynodi y bu newid dros y blynyddoedd diwethaf i ystyried sgiliau aelodau'r bwrdd yn fwy.

3.8 Gan gydnabod yr angen i wella sgiliau cyrff llywodraethu, cyflwynodd Llywodraeth Cymru ofynion hyfforddi gorfodol yn ddiweddar ar gyfer llywodraethwyr ysgolion (Medi 2013). Gallai'r cam pwysig hwn gyfleu neges glir i ddarparu llywodraethwyr a llywodraethwyr presennol ynghylch pwysigrwydd y rôl.

3.9 Fodd bynnag, efallai na fydd cyflwyno hyfforddiant gorfodol ynddo'i hun yn ddigon i wella ysgolion. Mae'r ffocws o'r newydd ar safonau cyflawni ym maes addysg yng Nghymru a'r 'Cynllun 20 Pwynt' Gweinidogol a amlinellwyd gan Leighton Andrews, y Cyn-Weinidog Addysg a Sgiliau ym mis Mawrth 2011 (Andrews, 2011)

oll yn awgrymu bod angen mwy o ddiwygiadau. Mae tystiolaeth ddiweddar gan Estyn yn cefnogi hyn. Dynoda fod Cymru ar ei hôl hi o gymharu â gwledydd eraill y DU mewn TGAU Mathemateg, er enghraifft (Estyn, 2013) ac mae'r canlyniadau PISA rhyngwladol ar gyfer Cymru islaw disgwyliadau.

3.10 Mae ymchwil yn dynodi bod ysgolion effeithiol yn gofyn am lywodraethu da a bod angen ystyried y sgiliau y mae llywodraethwyr unigol yn eu cynnig i gyrff llywodraethu a sut y gall hyn gyfrannu'n fwy at yr agenda gwella ysgolion. Yn ogystal, dylai cyrff llywodraethu fod yn strategol wrth recriwtio'r rhai â set sgiliau benodol a all fod yn wan ymhlith yr aelodau presennol.

3.11 Mae adolygu a gwella'r system llywodraethu ysgolion yn un rhan o'r daith i wella addysg yng Nghymru. Mae Llywodraeth Cymru hefyd wedi bod yn gweithio ar elfennau eraill sy'n ceisio sicrhau gwelliannau. Mae'r rhain yn cynnwys y Fframweithiau Llythrennedd a Rhifedd newydd a'r asesiadau cysylltiedig a gyflwynwyd ym mhob ysgol ar gyfer blynyddoedd 3-9 ym mlwyddyn academaidd 2012/2013. Yn ogystal, ceir nifer o fentrau sy'n bodoli eisoes sy'n ceisio hyrwyddo'r gwaith o wella ysgolion. Ceir agenda Gwella Ysgolion Llywodraeth Cymru sy'n nodi cynlluniau ar gyfer gwella systemau addysg yng Nghymru a'r llwybr diwygio hyd at 2015. Ymgorffora ymrwymadau a wnaed yn araith 'Mae addysgu'n gwneud gwahaniaeth' y Cyn-Weinidog a'r Fframwaith Effeithiolrwydd Ysgolion. Hefyd, ceir y 'Setiau Data Craidd' sy'n cymharu perfformiad rhwng ysgolion tebyg ledled Cymru a'r rhaglen Ymarferydd Arweiniol, a gynlluniwyd i fwydo arfer gorau drwy'r rhwydwaith ysgolion ac, ers gwanwyn 2013, y Radd Meistr newydd mewn Ymarfer Addysgol, sy'n canolbwyntio ar wella safonau a sicrhau bod pob disgybl ysgol yng Nghymru yn cyrraedd y lefel orau bosibl.

4. Materion yn ymwneud â'r fframwaith llywodraethu yng Nghymru

4.1 Mae'r adran hon yn canolbwyntio ar rai o'r prif faterion y mae'r grŵp wedi canolbwyntio arnynt yn ystod ei adolygiad.

A. Model llywodraethu rhanddeiliaid yn erbyn model llywodraethu sgiliau

4.2 Ymchwiliodd y grŵp yn fanwl i'r model rhanddeiliaid presennol a'i berthnasedd o ran trefniadaeth a safonau addysg ar lefel ysgol. Ar un ochr o'r ddadl mae dadleuon Pwyllgor Taylor o'r 1970au ynghylch sefydlu system rhanddeiliaid fel y disgifiwyd uchod yn adran 5. Ar yr ochr arall, mae model llywodraethu sy'n canolbwyntio'n fwy uniongyrchol ar 'sgiliau'. Yn y model llywodraethu hwn, dewisir llywodraethwyr ar sail yr hyn y gallant ei gyfrannu at y corff llywodraethu yn hytrach na'r grŵp â buddiant a gynrychiolir ganddynt. Yn ei hanfod, mae'r sgiliau a all fod yn werthfawr i gyrrff llywodraethu yn cynnwys profiad proffesiynol neu reoli a'r profiad sy'n deillio o weithio mewn sefydliadau cyhoeddus, preifat a thrydydd sector.

4.3 Datblygwyd model llywodraethu rhanddeiliaid o ganlyniad i fethiannau canfyddedig yr hyn a wnaed cyn y 1970au lle gwelwyd aelodau etholedig lleol yn dominyddu cyrff llywodraethu. Nid ystyriwyd bod y model hwn yn cyflawni gwelliannau i ysgolion ac weithiau gwnaed penderfyniadau ar sail materion gwleidyddol ehangach nad oeddent yn berthnasol i ysgolion efallai (Deem et al, 1995).

4.4 Yn y model diwygiedig, penderfynwyd y dylai amrywiaeth mwy cynrychioliadol o fuddiannau fod yn bresennol ar y corff llywodraethu. Datblygwyd y cysyniad o'r 'cyfaill beirniadol' er mwyn hysbysu llywodraethwyr am eu rôl - byddai hyn yn berthnasol i'r rolau 'cefnogi' a 'herio'. At hynny, byddai gan y corff llywodraethu ffocws strategol a byddai'n atebol. Trafodir yr agweddau hyn ar y corff llywodraethu isod.

4.5 Ceir pedwar opsiwn cyffredinol ar gyfer y model llywodraethu a amlinellir isod:

- i. Cadw'r model llywodraethu ysgolion rhanddeiliaid presennol yng Nghymru. Nodweddir y model hwn gan lefelau penodol o gynrychiolaeth ar gyfer pob grŵp rhanddeiliaid ac nid oes fawr o le i recriwtio llywodraethwyr ar sail sgiliau;
- ii. Model 'sgiliau' llawn lle nad oes unrhyw gynrychiolaeth uniongyrchol na mewnbwn gan rhanddeiliaid a chaiff llywodraethwyr eu recriwtio ar sail sgiliau yn unig. Cafodd y model hwn ei gyflwyno ym mis Medi 2012 gan Lywodraeth y DU fel opsiwn ar gyfer ysgolion a gynhaliwyd yn Lloegr ac mae eisoes yn bodoli ar gyfer yr Academiâu yno. Mae'r model hwn yn galluogi cyrff llywodraethu i ad-drefnu er mwyn dethol y rhan fwyaf o lywodraethwyr gydag ond ychydig yn cael eu hethol neu eu penodi gan rhanddeiliaid. Gallant hefyd leihau mewn maint i gyn lleied â saith llywodraethwr. Mae rhai o gefnogwyr y model hwn hefyd o blaid llywodraethwyr 'proffesiynol' a delir am eu gwaith.
- iii. Model llywodraethu hybrid sy'n cyfuno elfennau o fodolau rhanddeiliaid a sgiliau. O dan y model hwn, byddai llywodraethwyr cynrychioliadol rhanddeiliaid yn cael eu hategu gan lywodraethwyr wedi'u recriwtio ar sail eu sgiliau. Byddai natur anhyblyg bresennol dyraniadau rhanddeiliaid sefydlog yn cael ei disodli gan ddull gweithredu mwy hyblyg, ond â rhai cyfyngiadau. 'Rhanddeiliaid a Mwy' yw'r enw a roddwyd gennym ar hyn a dyma'r model a argymhellwyd gan y grŵp. Ceir trafodaeth fanylach am y dull gweithredu arfaethedig yn y rhan nesaf isod.
- iv. Model llywodraethu cymysg lle ceir sawl amrywiad. Mae un dull a amlinellir gan y Ganolfan Craffu Cyhoeddus (2006, t. 9) yn seiliedig ar gael corff llywodraethu llawn sy'n cynrychioli'r grwpiau rhanddeiliaid lle “[an] executive board is appointed with full delegated powers to direct and manage the school”. Mae gan y corff llywodraethu llawn rôl 'anweithredol' er mwyn “scrutinise decisions and policy of the executive and hold them to account” am eu penderfyniadau (CfPS, 2006, t.9). Mae'r model hwn yn gofyn i gyrff llywodraethu mawr hwyluso'r rhaniad gweithredol/anweithredol. Cafodd y model llywodraethu dwy haen hwn ei gyflwyno yn adolygiad Hill (2013). Fodd bynnag, ni chredwn fod y model hwn yn briodol yng nghyd-destun llywodraethu yng Nghymru oherwydd, er bod angen i'r model rhanddeiliaid presennol gael ei ddiwygio, gwerthfawrogi egwyddor natur gyfartal cyfraniad

pob aelod o'r corff llywodraethu. At hynny, mae angen eglurder mewn perthynas â chyfrifoldeb ac atebolrwydd dwy haen wahanol a dim ond model llywodraethu unigol all sicrhau hynny.

Argymhelliad 1: Mabwysiadu model 'Rhanddeiliaid a Mwy'. O dan y model hwn, rydym yn cadw'r cyfraniad gwerthfawr a wneir gan yr amrywiaeth o randdeiliaid ac yn awgrymu bod yr agwedd 'a Mwy' yn rhoi'r hyblygrwydd a'r rhyddid i gyrrff llywodraethu recriwtio llywodraethwyr ychwanegol ar sail anghenion sgiliau.

B. Hyblygrwydd o ran Strwythur Cyrff Llywodraethu Ysgolion

4.6 Mae'r model rhanddeiliaid presennol, fel y nodir yn Opsiwn A uchod, yn gweithredu corff llywodraethu y mae ei faint yn seiliedig ar nifer y disgyblion sydd wedi'u cofrestru yn yr ysgol. Ceir fformiwla ar gyfer nifer y mathau gwahanol o lywodraethwyr sy'n nodi cyfrannau sefydlog ar gyfer pob grŵp o randdeiliaid. Y bwriad clir yma'n wreiddiol oedd sicrhau bod gwahanol fuddiannau rhanddeiliaid yn gydradd. Ymdriniwyd â mater aelodaeth yn adolygiad y Pwyllgor Dethol yn Lloegr lle cydnabu cynrychiolydd yr Adran Addysg "representation need not be at odds with a focus on skills". Dadleuodd yr Adran hefyd "representative structures do not in themselves necessarily lead to high quality governance" (Tŷ'r Cyffredin, t.7, 2013).

4.7 O'n hadolygiad o aelodaeth, mae'r grŵp o'r farn nad yw model fformwlaig presennol aelodaeth llywodraethwyr yn ddigon hyblyg i alluogi cyrrff llywodraethu i recriwtio llywodraethwyr â sgiliau addas. At hynny, nid yw'n darparu'r cydbwysedd mwyaf priodol rhwng mewnbynnau rhanddeiliaid ac anghenion sgiliau ar hyn o bryd.

4.8 Mae'r grŵp hwn yn argymhell y dylai cyrrff llywodraethu ysgolion unigol gynnwys rhwng naw a 21 o lywodraethwyr. Yn ein barn ni, mae naw llywodraethwr yn cynnig nifer ddigonol o lywodraethwyr o ystyried y cyfrifoldebau presennol a gyflawnir gan gorff llywodraethu. Argymhellwn 'gworwm' o saith llywodraethwr neu 50%, p'un bynnag sydd fwyaf, er mwyn sicrhau, mewn unrhyw benderfyniad, y caiff y rhan fwyaf o lywodraethwyr eu cynnwys. Mae o leiaf naw yn galluogi corff llywodraethu i fodloni ei ofynion o ran apeladau. Y terfyn uchaf o 21 yw uchafswm maint corff llywodraethu ar hyn o bryd ac rydym yn hapus i gytuno ar hyn.

4.9 O dan 'Rhanddeiliaid a Mwy' byddai'r corff llywodraethu yn cynnwys pob un o'r grwpiau rhanddeiliaid presennol, gan gynnwys rhieni, athrawon/staff a llywodraethwyr awdurdodau lleol.

4.10 Unwaith y câi'r cynrychiolwyr rhanddeiliaid hyn eu sefydlu, byddai'r corff llywodraethu yn rhydd i benodi rhagor o lywodraethwyr, hyd at yr uchafswm o 21. Byddai'r penodiadau hyn yn seiliedig ar anghenion sgiliau'r corff llywodraethu, a gallent gynnwys llywodraethwyr ychwanegol o blith buddiannau a gynrychiolwyd eisoes drwy'r elfen rhanddeiliaid. Er enghraifft, bydd ysgolion lle y gall fod gan rieni sgiliau gwerthfawr sydd eu hangen ar y corff llywodraethu. Yn yr un modd, gall cynrychiolwyr ychwanegol o blith athrawon/staff neu'r awdurdod lleol gynnig sgiliau defnyddiol i'r corff llywodraethu.

4.11 O ran y maint cyffredinol, er bod hyblygrwydd o fewn y system i bennu maint y corff yn gyffredinol, disgwyliwn y dylai llywodraethwyr ystyried y niferoedd yn yr ysgol. Dylai'r cyrff llywodraethu mwyaf fod ynghlwm wrth yr ysgolion â'r nifer fwyaf o ddisgyblion. Yn yr un modd, mae'r rhai â llai o ddisgyblion yn debygol o fod â chyrrff llywodraethu llai.

4.12 Gwerthfawrogwn y cydbwysedd rhwng gwahanol fuddiannau llywodraethwyr o fewn aelodaeth y corff a disgwyliwn i'r strwythur diwygiedig gyflawni aelodaeth fwy amrywiol. Fodd bynnag, er mwyn cynnal y cydbwysedd hwn, mae'r grŵp yn cynnig, o dan 'Rhanddeiliaid a Mwy', ac yn lle'r system bresennol o gyfrannau sefydlog o randdeiliaid, y byddai uchafswm ar gyfer unrhyw fudd rhanddeiliad unigol. Argymhellwn na ddylai mwy na thraean o'r holl gyrff llywodraethu fod yn athrawon neu'n aelodau eraill o staff a gyflogir yn yr ysgol ac na ddylai mwy na thraean fod yn rhieni plant yn yr ysgol. Hefyd, argymhellwn na ddylai athrawon nac aelodau eraill o staff sydd â phlant mewn ysgol benodol gyflawni rôl rhiant ar gyrff llywodraethu. Cefnogwn barhad disgybl-lywodraethwr/lywodraethwyr mewn ysgolion uwchradd.

4.13 Wrth benodi llywodraethwyr, bydd y corff llywodraethu yn nodi'r sgiliau sydd eu hangen arno ac yn adolygu'r holl benodiadau posibl i'r corff llywodraethu yn sgil hyn. Yn amlwg, ni chaiff pob llywodraethwr ei benodi, ond lle y cânt, cynhelir 'archwiliad sgiliau' er mwyn nodi unrhyw fylchau posibl. Yn Atodiad I ceir dogfen templed

'archwiliad sgiliau' y gellid ei diwygio a'i defnyddio gan gyrff llywodraethu at y diben hwn.

4.14 Dylai cyrff llywodraethu gynnwys y rhanddeiliaid canlynol:

- Pennaeth (disgwylir iddo fod yn llywodraethwr)
- Rhiant-lywodraethwr
- Athro-lywodraethwr
- Staff-lywodraethwr
- Llywodraethwr o'r awdurdod lleol

4.15 Yn ogystal, bydd gan ysgolion y llywodraethwyr canlynol yn dibynnu ar eu categori:

- Llywodraethwyr cymunedol (pob ysgol ar wahân i ysgolion gwirfoddol a gynorthwyr)
- Llywodraethwyr Sefydledig (ysgolion gwirfoddol a gynorthwyr, ysgolion sefydledig ac ysgolion gwirfoddol a reolir)
- Llywodraethwyr cynrychioliadol (ysgolion arbennig cymunedol - yn cymryd lle llywodraethwr cymunedol)
- Llywodraethwr partneriaeth (ysgolion sefydledig heb sylfaen)
- Llywodraethwyr Cymunedol Ychwanegol (unrhyw ysgol gynradd a leolir mewn ardal Cyngor Cymuned)
- At hynny, gall fod gan ysgolion Lywodraethwyr Nawdd.

4.16 Hefyd, mae'n rhaid bod gan bob ysgol uwchradd ddau ddisgybl-lywodraethwr cyswllt nad ydynt yn pleidleisio ac nad ydynt yn cyfrif yn erbyn y cworwm.

4.17 Hefyd, canolbwyntiodd y grŵp ar strwythur cyrff llywodraethu ysgolion ffederal. Er eglurder, credwn, lle mae ysgolion yn ffedereiddio, y dylai un corff llywodraethu arwain ysgol unigol neu grŵp o ysgolion. Mae angen sicrhau bod un haen o gyfrifoldeb ac atebolrwydd. Argymhellodd Adolygiad Hill (2013) y dylid cyflwyno modelau llywodraethu dwy haen ar gyfer ysgolion ffederal. Ym marn y grŵp hwn,

gallai strwythur dwy haen arwain at ddyblygu gweithgareddau a drysu atebolrwydd, gan greu cydberthynas gamweithredol rhwng y ddwy haen. O ran ysgolion ffederal, dylai cyrff llywodraethu annog ysgolion i ddatblygu sianelau cyfathrebu ar lefel ysgol a fydd yn briodol i'w dull llywodraethu. Roedd hyn yn rhan o'n hymateb i Adolygiad Hill (2013).

4.18 Mae'r grŵp yn argymhell bod egwyddor 'Rhanddeiliaid a Mwy' yn briodol i ysgolion unigol ac ysgolion ffederal. Fel yn achos yr ysgolion unigol uchod, credwn y dylai fod o leiaf naw llywodraethwr mewn ysgolion sy'n dewis ffedereiddio. Nodir 'cworwm' o saith llywodraethwr neu 50% (p'un bynnag sydd fwyaf) ar gyfer cyrff llywodraethu ffederal hefyd. Fel gyda chorff llywodraethu'r ysgol unigol, ni ragnodir aelodaeth y corff ffederal oni bai am yr angen i gynnwys rhanddeiliaid o'r grwpiau canlynol:

- Pennaeth Ffederasiwn
- Pennaeth pob ysgol (disgwylir iddo fod yn llywodraethwr)
- Rhiant -lywodraethwr
- Athro-lywodraethwr
- Staff-lywodraethwr
- Llywodraethwr o'r awdurdod lleol

4.19 Yn ogystal, bydd gan ysgolion y llywodraethwyr canlynol yn dibynnu ar eu categori:

- Llywodraethwr cymunedol (pob ysgol ar wahân i ysgolion gwirfoddol a gynorthwyr)
- Llywodraethwr Sefydledig (ysgolion gwirfoddol a gynorthwyr, ysgolion sefydledig ac ysgolion gwirfoddol a reolir)
- Llywodraethwr cynrychioliadol (ysgolion arbennig cymunedol - yn cymryd lle llywodraethwr cymunedol)
- Llywodraethwr partneriaeth (ysgolion sefydledig heb sylfaen)
- Llywodraethwyr Cymunedol Ychwanegol (unrhyw ysgol gynradd a leolir mewn ardal Cyngor Cymunedol)

- At hynny, gall fod gan ysgolion Lywodraethwyr Nawdd.

4.20 Hefyd, mae'n rhaid bod gan bob ysgol uwchradd ddau ddisgybl-lywodraethwr cyswllt nad ydynt yn pleidleisio ac nad ydynt yn cyfrif yn erbyn y cworwm.

4.21 Ystyriodd y grŵp uchafswm maint corff llywodraethu ffederal. Ar hyn o bryd, ceir uchafswm o 25 o lywodraethwyr o fewn y Rheoliadau Ffedereiddio ar gyfer ysgolion a gynhelir yng Nghymru (Rheoliadau Ffedereiddio 2010). Yn ein barn ni, mae'r nifer hon yn galluogi'r corff llywodraethu ffederal newydd i recriwtio rhanddeiliaid o'r ysgol unigol a hefyd yn golygu bod sgiliau allweddol yn cael eu hadlewyrchu yn yr aelodaeth.

4.22 Dylai cyrff llywodraethu annog ysgolion i ddatblygu sianelau cyfathrebu ar lefel ysgol a fydd yn briodol i'r model llywodraethu ffederal newydd. Gellid ystyried hyrwyddo 'Cynghorau Rhieni' a fforymau tebyg eraill gan ysgolion unigol er mwyn sicrhau bod eu llais yn cael ei chlywed o fewn y corff llywodraethu ffederal (Arnott 2013).

4.23 O ran cydbwysu gwahanol fuddiannau llywodraethwyr o fewn aelodaeth y corff llywodraethu ffederal, disgwyliwn i'r strwythur diwygiedig gyflawni aelodaeth fwy amrywiol. Argymhellwn hefyd na ddylai mwy na thraean o'r holl gyrff llywodraethu fod yn aelodau o staff a gyflogir gan yr ysgol ac na ddylai mwy na thraean fod yn rhieni plant yn yr ysgol. Hefyd, awgrymwn na ddylai athrawon nac aelodau eraill o staff sydd â phlant mewn unrhyw un o'r ysgolion gyflawni rôl rhiant ar y corff llywodraethu. At hynny, cefnogwn barhad myfyriwr-lywodraethwyr mewn ysgolion uwchradd.

4.24 Yn olaf, fel gyda chorff llywodraethu ysgol unigol, argymhellwn y dylai pob llywodraethwr gael ei benodi'n ffurfiol i'r corff ffederal unwaith y daw'n llywodraethwr. Felly, mae'r argymhelliad hwn yn golygu bod gan y corff llywodraethu y pŵer i fynd ati i gael gwared ar lywodraethwyr.

Argymhelliad 2:

- A. Mae strwythur cyrff llywodraethu yn hyblyg, gyda rhwng naw a 21 o lywodraethwyr yn aelodau;**
- B. Mae corff llywodraethu ysgol ffederal yn cynnwys rhwng naw a 25 o aelodau;**
- C. Ceir 'cworwm' o saith llywodraethwr neu 50% o leiaf, p'un bynnag sydd fwyaf yng nghyfarfodydd y corff llywodraethu;**
- D. Ni ddylai mwy na thraean o aelodau corff llywodraethu fod yn rhieni nac yn aelodau o staff yr ysgol;**
- E. Ni ddylai athrawon nac aelodau eraill o staff sydd â phlant mewn ysgol gyflawni rôl rhiant ar y corff llywodraethu;**
- F. Caiff holl aelodau'r corff llywodraethu eu penodi'n ffurfiol ganddo.**

C. Rôl Strategol ac Atebolrwydd

4.25 Mae atebolrwydd yn fater allweddol ym maes llywodraethu ysgolion a chyflawni'r agenda wella yng Nghymru a thu hwnt (Maile, 2002). Law yn llaw â chyfrifoldeb mae atebolrwydd. Mae gan gyrff llywodraethu gyfrifoldeb ffurfiol i "gyflawni rôl strategol yn fras yng ngwaith rheoli'r ysgol" (Rheoliadau Addysg (Cylch Gwaith) (Cymru) (2000)). Mae eu rôl strategol yn golygu eu bod yn gyfrifol am y canlynol:

- pennu nodau ac amcanion i'r ysgol;
- mabwysiadu polisiau ar gyfer cyflawni'r nodau ac amcanion hynny;
- pennu targedau ar gyfer cyflawni'r nodau ac amcanion hynny;
- adolygu cynnydd tuag at gyflawni'r nodau ac amcanion.

Cyf - Rheoliadau Addysg (Cylch Gwaith) (Cymru) 2000

4.26 Fel y trafodwyd uchod yn Adran 4A, mae angen i'r corff llywodraethu ganolbwyntio ar ei rôl strategol, darparu atebolrwydd a chyflawni rôl 'cyfaill beirniadol'. Ym marn y grŵp, mae nifer sylweddol o gyrff llywodraethu yn cyflawni'r rôl olaf hon, gyda phwyslais ar yr agwedd 'cyfaill', ar draul y gofynion eraill. Credwn fod angen i fwy o gyrff llywodraethu ganolbwyntio'n fwy ar yr agweddau strategol ar lywodraethu, ac y dylai'r Pennaeth a'r Uwch Dîm Arwain barhau i fod yn gyfrifol am y gwaith rheoli beunyddiol. Mae penaethiaid yn atebol yn ffurfiol i'r corff llywodraethu

am weithredu strategaeth y corff llywodraethu o fewn prosesau addysgu a dysgu ystafell ddosbarth, gan weithredu o fewn rôl y 'Prif Weithredwr'. Dylai'r corff llywodraethu chwarae rhan lawn yn y gwaith o lunio Cynllun Datblygu'r Ysgol/Cynllun Gwella'r Ysgol ac adroddiadau Hunanwerthuso, ynghyd â chymryd perchenogaeth lawn ohonynt.

4.27 Elfen allweddol o waith craffu llywodraethwyr a'r gallu i olrhain y broses o weithredu'r strategaeth yw'r adroddiad a gyflwynir gan benaethiaid yng nghyfarfodydd cyrff llywodraethu. Argymhellwn y dylai penaeithiaid lunio adroddiad tymhorol i'w ddsbarthu cyn cyfarfodydd y corff llywodraethu y dylid ei gyflwyno yn y cyfarfodydd. Mae'r argymhelliad hwn yn unol â'r gofynion presennol a nodir yn Rheoliadau Llywodraethu Ysgolion 2005. Dylai adroddiad y Pennaeth gynnwys y meysydd canlynol:

- sefyllfa bresennol yr ysgol o ran ei nodau ac amcanion;
- ystyriaeth feirniadol o gyflawniadau'r ysgol tuag at gyflawni'r nodau ac amcanion hynny;
- adolygiad o ddata ar berfformiad;
- lefelau absenoldeb a phresenoldeb;
- materion staffio.

4.28 Mae hefyd yn hanfodol bod y corff llywodraethu yn cynnal adolygiad rheolaidd o'i berfformiad ei hun. Dylid cynnal hunanwerthusiad ar lefel ysgol ac ar lefel corff llywodraethu. Mae Atodiad II yn cynnwys enghraifft o dempled hunanwerthuso corff llywodraethu sydd wedi'i strwythuro i ddilyn gofynion y fframwaith Arolygu Cyffredin. Fe'i cyflwynir fel templed a all gael ei addasu gan gyrff llywodraethu unigol.

4.29 O ran atebolrwydd, mae cyrff llywodraethu yn atebol i rieni ac Estyn am bob agwedd ar berfformiad ysgol. Cynorthwyr cyrff llywodraethu i gyflawni eu swyddogaethau atebolrwydd gan awdurdodau lleol ac, yn fwy diweddar, y consortia rhanbarthol sy'n gyfrifol am roi cyngor a her i lywodraethwyr er mwyn gwella perfformiad o fewn ysgolion. Disgwylir y bydd mwy o 'her' ac 'atebolrwydd' yn y system yn y dyfodol wrth i gonsortia rhanbarthol gael eu sefydlu.

4.30 Bu newidiadau diweddar i'r gofynion i lywodraethwyr gwrdd â rhieni, gyda'r nod o wneud cyrff llywodraethu yn fwy uniongyrchol ymatebol i faterion rhieni. Croesewir y newidiadau hyn, gan gynnwys dileu'r angen i gynnal cyfarfod blynyddol â rhieni, yn gyffredinol, er ei bod yn bosibl, mewn ysgolion lle nad oes unrhyw faterion dybryd gan rieni, na fydd y corff llywodraethu yn cwrdd â rhieni am gryn amser efallai. Felly, mae'n hanfodol cynnal dulliau cyfathrebu er mwyn sicrhau bod y corff llywodraethu yn parhau i fod yn atebol i rieni.

4.31 Ar hyn o bryd, mae cyrff llywodraethu'n paratoi 'Adroddiad Blynyddol i Rieni' fel rhan o'u hatebolrwydd. Argymhellwn y dylid ailenwi'r adroddiad hwn yn 'Adroddiad Blynyddol' ac y dylai fod ar gael yn eang i randdeiliaid ac nid dim ond i rieni. Argymhellwn y dylai ganolbwyntio llawer mwy ar y meysydd a amlinellir uchod yn adroddiad y pennaeth ac unrhyw faterion allweddol eraill o ran gwelliant a pherfformiad. Yn y maes hwn, cefnogwn argymhelliad Adolygiad Hill (2013) y dylai Llywodraeth Cymru adolygu cynnwys yr adroddiad blynyddol. Dylai adroddiad blynyddol y corff llywodraethu a gwefan yr ysgol hefyd gyfeirio rhieni a rhanddeiliaid eraill at wefan 'Fy Ysgol Leol' www.mylocalschool.wales.gov.uk/ lle rhoddir gwybodaeth gyd-destunol ddefnyddiol arall sy'n berthnasol i'r ysgol. Dylai'r adroddiad blynyddol sy'n ymwneud ag ysgolion fod yn amlwg ar wefan 'Fy Ysgol Leol'. Yn ogystal â'r data presennol sydd eisoes ar y wefan hon, mae'r grŵp hwn yn argymhell y dylid ehangu'r wefan hon i gynnwys 'tabiau' newydd â data perthnasol ar ysgol. Mae rhywfaint o hyn wedi'i gynnwys yn Setiau Data Craidd presennol Llywodraeth Cymru a byddent o ddiddordeb fel rhan o'r wybodaeth ehangach am ysgol.

4.32 Gwaith arolygu yw un o'r prif ffyrdd y mae'r cyhoedd yn dwyn ysgolion i gyfrif. Mae'n amlwg i ni y dylid rhoi mwy o sylw i rôl y corff llywodraethu fel rhan o'r broses o arolygu ysgolion. Yn gyfreithiol, y corff llywodraethu yw'r corff sy'n arwain yr ysgol ac felly dylai fod yn atebol am ei pherfformiad cyffredinol. Yn adroddiad Estyn ar gyfer 2011/2012 nodwyd bod y gwaith arwain a rheoli yn 'Ardderchog' mewn 20% o'r holl ysgolion uwchradd a 6% o ysgolion cynradd (Estyn 2011/12). Yn ei thystiolaeth i'r adolygiad o'r system llywodraethu ysgolion yn Lloegr, mae Ymddiriedolaeth Wellcome yn dadlau ei bod o'r farn "that excellence in science education – as indeed in any aspect of schooling – is not possible without strong governance" (Tŷ'r

Cyffredin, 2013, Ymateb gan Ymddiriedolaeth Wellcome, 2012). Yn amlwg, mae lle i wella yma ac mae angen sicrhau bod y rhai â chyfrifoldeb strategol am arwain ysgolion yn atebol yn ffurfiol.

4.33 Ar hyn o bryd, mae Estyn yn cynnal cyfarfod â'r Cadeirydd ac, fel arfer, llywodraethwr arall ar ddechrau'r arolygiad ac efallai mai dyma'r unig ran a chwaraeir gan llywodraethwyr mewn arolygiad. Yn ein barn ni, mae corff llywodraethu ysgol yn allweddol i berfformiad ysgol ac mae llywodraethu yn fater corfforaethol.

Argymhellwn y dylai'r cyfarfod a gynhelir cyn yr arolygiad ag Estyn gynnwys mwy o llywodraethwyr na dim ond y cadeirydd yn ffurfiol. Awgrymwn y dylai cyrff llywodraethu benderfynu sawl llywodraethwr y gallai hyn ei gynnwys er y byddem yn cynghori yn erbyn cynnwys pob llywodraethwr oherwydd gall hyn wneud y rhyngweithio rhwng Estyn a'r Corff Llywodraethu yn rhy ffurfiol. Awgrymwn y dylid pennu meincnod o bedwar neu bum llywodraethwr.

4.34 Dylai'r corff llywodraethu chwarae rôl hyblyg yn arolygiad gwirioneddol yr ysgol, ac awgrymwn y dylai cofnodion cyfarfodydd y corff llywodraethu fod yn rhan o broses arolygu ysgol. Dylai aelodau'r corff llywodraethu hefyd chwarae rhan yn y cyfarfod a gynhelir ar ôl yr arolygiad.

4.35 Cred y grŵp hwn y dylai Estyn hefyd wneud dyfarniadau ynghylch rôl y corff llywodraethu mewn meysydd allweddol fel strategaeth a gweledigaeth, ei adolygiad a'i asesiad o berfformiad ac ati. Rhestrir yr agweddau allweddol a fernir gan OFSTED yn Lloegr fel rhan o arolygiad ysgol yn Atodiad III a chredwn fod sail i Estyn adolygu hyn ac ystyried pa mor briodol ydyw o ran arolygiadau yng Nghymru.

Argymhelliad 3:

- A. Dylai cyrff llywodraethu gyflwyno 'Adroddiad Blynyddol' ar berfformiad yr ysgol;**
- B. Dylai Llywodraeth Cymru gynnal adolygiad o gynnwys Adroddiad Blynyddol corff llywodraethu ysgol;**
- C. Dylai Penaethiaid lunio adroddiad tymhorol i'w ddsbarthu cyn cyfarfodydd y corff llywodraethu y dylid ei gyflwyno yn y cyfarfodydd. Dylai gynnwys sefyllfa bresennol yr ysgol o ran nodau ac amcanion;**

ystyriaeth feirniadol o gyflawniadau'r ysgol tuag at gyflawni'r nodau ac amcanion hynny; adolygiad o ddata ar berfformiad; lefelau absenoldeb a phresenoldeb; materion staffio;

- D. Mae angen i lywodraethwyr chwarae mwy o ran yn arolygiad ffurfiol yr ysgol;**
- E. Mae Estyn yn adolygu'r agweddau a fernir gan Ofsted mewn arolygiad ysgol ac yn ymateb i'r Gweinidog yn uniongyrchol ynghylch priodolrwydd hyn fel rhan o'r gwaith o arolygu ysgolion yng Nghymru.**
- F. Mae gwefan 'Fy Ysgol Leol' yn cynnwys tabiau ychwanegol sy'n rhoi rhagor o wybodaeth am ysgol;**

5. Rhannu cyfrifoldebau o fewn y system addysg bresennol

5.1 Mae angen eglurder ynghylch rhannu cyfrifoldebau yn y system addysg yng Nghymru. Nid argymhellir y dylid dyblygu'r gwasanaethau a ddarperir ar unrhyw lefel. Nododd adolygiad Hill (2013) fod dryswch ynghylch cyfrifoldebau ac mae'n cynnig opsiynau i roi diwedd ar hyn.

5.2 O ran yr adolygiad a gynhaliwyd gan y grŵp hwn, tynnwn sylw penodol at beth eglurder ynghylch cyfrifoldebau ym maes llywodraethwyr.

5.3 Mae penaethiaid yn gweithredu fel prif weithredwr yr ysgol ac mae angen eglurder ynghylch cyfrifoldebau penaethiaid a chyrff llywodraethu. O ran penodi a diswyddo staff, treuliodd y grŵp gryn dipyn o amser yn trafod p'un ai'r pennaeth ddylai fod yn gwbl gyfrifol am y materion hyn neu a ddylid datganoli i'r pennaeth gyda chadeirydd y llywodraethwyr, neu barhau â'r system bresennol lle pwyllgor y corff llywodraethu sy'n gyfrifol. Ni lwyddodd y grŵp i gytuno ar y lefel briodol o ddirprwyo o ran penodi a diswyddo staff ond mae'n argymhell y dylai Llywodraeth Cymru ystyried y mater hwn ymhellach.

5.4 Mater arall a gafodd sylw gan y grŵp o ran lleoli cyfrifoldeb oedd cymorth Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY). Awgrymwyd y dylid datganoli'r broses o ariannu a gweinyddu ADY i lefel corff llywodraethu. Fodd bynnag, yn ein barn ni, ni fyddai hyn yn briodol yn enwedig o ystyried y gallai arwain at wrthdaro rhwng ysgolion a rhieni.

Argymhelliad 4: Mae angen eglurder ynghylch cyfrifoldebau penaethiaid a chyrff llywodraethu gan ganolbwyntio'n benodol ar benodi a diswyddo staff. Mae angen i'r mater hwn gael ei ddatrys gan Lywodraeth Cymru lle mae angen adolygu'r rheoliadau Cylch Gorchwyl.

6. Hyfforddi llywodraethwyr

6.1 Mae'r elfen ofynnol newydd i hyfforddi llywodraethwyr a gyflwynwyd ym mis Medi 2013 yn ddatblygiad cadarnhaol. Bydd angen monitro effaith y trefniadau hyfforddi newydd. Gall hyn gynnwys adolygiad gan Estyn yn canolbwyntio'n arbennig ar lywodraethu ysgolion.

6.2 Mae rôl y cadeirydd yn hanfodol i weithrediad y corff llywodraethu. Mae'r grŵp yn argymhell y dylai cyfleoedd mentora a hyfforddi fod ar gael i bob cadeirydd newydd a chadeiryddion mwy profiadol lle y bo'n briodol. Gallai'r cymorth mentora hwn gael ei ddarparu gan gadeirydd corff llywodraethu arall. Cynigiodd Adolygiad Hill (2013) rôl Ymarferydd-Llywodraethwr Arweiniol, ac mae'r grŵp yn cefnogi hyn. Yn ein barn ni, dylai'r rôl hon fod yn agored nid yn unig i gadeiryddion presennol, ond hefyd, lle y bo'n briodol, i gyn-gadeiryddion a llywodraethwyr profiadol eraill. Bydd y system hon o gymorth cymheiriaid cydweithredol yn ategu'r hyfforddiant gorfodol i gadeiryddion a gyflwynwyd yn ddiweddar.

6.3 Dylid hefyd annog cymorth mentora o fewn cyrff llywodraethu, er mwyn rhoi cymorth ychwanegol i lywodraethwyr newydd, neu lywodraethwyr sy'n cyflawni rôl newydd o fewn y corff llywodraethu. Gallai'r cymorth hwn gael ei gydgysylltu gan un llywodraethwr, ond byddai fwy na thebyg yn cynnwys nifer o lywodraethwyr mwy profiadol yn gweithio gyda chydweithwyr. O ystyried y nifer gymharol fach o gyfarfodydd mewn blwyddyn, mae'n hanfodol bod llywodraethwyr sydd newydd gael eu hethol neu eu penodi yn dod yn gyfarwydd â'u rôl ac yn ei chyflawni'n effeithiol cyn gynted â phosibl. Cred y grŵp y dylai effeithiolrwydd gweithgareddau mentora a hyfforddi gan y corff llywodraethu fod yn agwedd ar broses arolygu Estyn.

6.4 Mae'n bwysig cydnabod arwyddocâd rôl y cadeirydd a nodir bod hyn yn ddylanwad pwysig ar arweinyddiaeth effeithiol (Zhang, 2010). Ar hyn o bryd, caiff cadeiryddion eu hethol bob blwyddyn a chefnogwn yr 'adolygiad' blynyddol hwn. At hynny, awgrymwn uchafswm o dymor chwe blynedd ar gyfer cadeirydd corff llywodraethu. Bydd hyn yn annog cyrff llywodraethu i ystyried camau cynllunio olyniaeth ar gyfer rôl y cadeirydd yn eu rhaglenni datblygu llywodraethwyr. Bydd y

newid hwn hefyd yn cyflwyno buddiannau newydd ac yn hyrwyddo amrywiaeth, ynghyd â sicrhau bod cydberthnasau yn parhau i hyrwyddo gwerthoedd 'craffu' a 'her' yn hytrach na dod yn rhy 'gyfarwydd' a 'diogel'.

6.5 Mae'r grŵp yn disgwyl i'r swyddogaeth hyfforddi gael ei lleoli o fewn y consortia rhanbarthol lle y gall amrywiaeth o gyrsiau arbenigol ar sawl lefel gael eu cyflwyno. Mae angen i ansawdd yr hyfforddiant gael ei fonitro ac awgrymwn y gallai'r agwedd hon fod yn destun adolygiad gan Estyn yn y dyfodol. Gallai'r hyfforddiant ei hun gael ei gynnig gan amrywiaeth o ddarparwyr sy'n cynnig cyrsiau achrededig. Mae cael amrywiaeth o gyfleoedd hyfforddi ar sawl ffurf, gan gynnwys ar-lein, yn fwyaf tebygol o feithrin sgiliau llywodraethu allweddol ym meysydd her a chraffu.

6.6 Ar hyn o bryd, caiff y rhan helaeth o hyfforddiant llywodraethwyr ei ddarparu i lywodraethwyr unigol o wahanol ysgolion, ar lefel sirol fel arfer. Argymhellwn y dylai awdurdodau lleol neu gonsortia ystyried cynnig hyfforddiant sy'n canolbwyntio'n fwy ar 'gorff llywodraethu cyfan', neu hyfforddi clystyrau gan ganolbwyntio ar hunanwerthuso a myfyrio. Rhagwelir y bydd y math hwn o hyfforddiant arfer gorau yn fwy amlwg yn y dyfodol lle y bo'n ymarferol. Bydd hyfforddi corff llywodraethu cyfan neu glwstwr yn werthfawr o ran creu rhwydweithiau ac, yn achos hyfforddi corff llywodraethu cyfan, feithrin sgiliau grŵp. Ar y cyfan, a chan dderbyn bod peth hyfforddiant mewn meysydd arbenigol, mae angen i hyfforddiant ganolbwyntio ar wella sgiliau craffu a herio llywodraethwyr fel bod y gwaith o lywodraethu ysgolion yn gwella.

6.7 Cred y grŵp y dylai perfformiad ac adborth llywodraethwyr unigol gael eu hadolygu bob blwyddyn gan ddefnyddio proses hunanwerthuso; byddai hyn yn gyson â phedwar mater allweddol Cornforth (2001) sy'n gysylltiedig ag effeithiolrwydd bwrdd. Awgrymwn y dylid 'paru' llywodraethwyr yn anffurfiol ac y dylai crynodeb byr o'r materion allweddol a godwyd gan lywodraethwyr yn hyn o beth gael ei baratoi gan y clerics a'i roi i'r cadeirydd. Dylai'r broses hon o fyfrio ganolbwyntio ar wella llywodraethwyr a sicrhau bod safbwyntiau unigol yn cael eu clywed. Mae arfer tebyg ar waith yn y sector Cymdeithasau Tai a nodir 'pecyn cymorth' enghreifftiol a ddefnyddir gan un gymdeithas dai yng Nghymru yn Atodiad IV. Fe'i cynhwysir yma fel enghraifft o arfer a ddefnyddir rywle arall a allai gael ei addasu ar gyfer corff

llywodraethu a llywodraethwyr er mwyn gwerthuso eu cyfraniad a nodi meysydd i'w gwella. Yn y bôn, mae'r elfen hon yn ceisio hyrwyddo a datblygu arfer myfyriol, er mwyn meithrin ymwybyddiaeth llywodraethwyr o'u rôl a'u cyfrifoldebau a sicrhau bod gan lywodraethwyr fforwm i godi materion mewn perthynas â'u profiadau.

Argymhellwn y dylai Llywodraeth Cymru greu templed ar gyfer gwaith hunanwerthuso ac adolygu unigol. Fel rhan o'r gwaith o ddatblygu llywodraethwyr unigol, awgrymwn y dylid cynnal cyrsiau 'gloywi' ar gyfer pob llywodraethwr er mwyn sicrhau bod ei sgiliau a'i wybodaeth yn cael eu cynnal. Dylai Llywodraeth Cymru gyhoeddi canllawiau sy'n cydnabod yr angen i lywodraethwyr gael y wybodaeth ddiweddaraf am faterion addysg.

6.8 Mae'r grŵp hwn yn argymhell y dylai cyrff llywodraethu gynnal 'archwiliad sgiliau' rheolaidd o aelodaeth bresennol cyrff llywodraethu a manteisio ar arbenigedd llywodraethwyr ychwanegol (hyd at uchafswm o lywodraethwyr lle bo angen). Gall y templed a gyflwynir yn Atodiad II gael ei addasu gan gorff llywodraethu unigol er mwyn helpu i adolygu sgiliau presennol. Byddai'r adolygiad hwn yn hynod ddefnyddiol pan fyddai angen penodi llywodraethwr newydd.

Argymhelliad 5:

- A. Dylai llywodraethwyr a chadeiryddion newydd gael eu mentora gan lywodraethwyr profiadol;**
- B. Os caiff argymhelliad adolygiad Hill ei dderbyn gan y Gweinidog, dylai llywodraethwyr sy'n ymarferwyr arweiniol gynorthwyo cadeiryddion newydd;**
- C. Ystyried hyfforddi corff llywodraethu cyfan neu glwstwr fel model ar gyfer darparu hyfforddiant;**
- D. Hunanwerthusiad ac adolygiad cyfnodol ar gyfer y corff llywodraethu a llywodraethwyr unigol;**
- E. Dylai Llywodraeth Cymru greu templed ar gyfer gwaith hunanwerthuso ac adolygu llywodraethwyr unigol a chyrff llywodraethu;**
- F. Cynhelir Archwiliad Sgiliau yn rheolaidd.**

7. Clercod i'r cyrff llywodraethu

7.1 Mae rôl y clerc yn ganolog i weithrediad effeithiol corff llywodraethu. Mae angen i'r clerc gael ei gydnabod fel rôl broffesiynol. Mae'n ddefnyddiol i glercod cyrff llywodraethu unigol gael rôl Swyddog Cymorth Llywodraethwyr yn y consortia rhanbarthol/awdurdod lleol oherwydd gall roi cefndir a gwybodaeth gyd-destunol ddefnyddiol iawn. Cred y grŵp y bydd hyfforddiant gorfodol ar gyfer pob clerc yn gwella ei wybodaeth ac yn ei wneud yn fwy effeithiol. Argymhellwn, wrth gyflawni eu dyletswyddau, y dylai clercod gael eu gwerthuso gan gadeirydd y llywodraethwyr a'r pennaeth.

Argymhelliad 6: Er mwyn cydnabod rôl broffesiynol clercod, mae angen sicrhau bod eu swydd yn cael ei gwerthuso a'i hasesu gan gadeirydd y llywodraethwyr a'r pennaeth.

8. Gwybodaeth

A. Data ar Berfformiad Ysgol

8.1 Mae gwybodaeth yn ganolog i wella sgiliau herio a holi llywodraethwyr. Mae'r grŵp yn gefnogol iawn i wybodaeth newydd o'r profion llythrennedd a rhifedd cenedlaethol. Hwn fu'r adolygiad annibynnol cyntaf o gynnydd plant ym mlynnyddoedd cyntaf yr ysgol yng Nghymru a rhydd y data wybodaeth ddefnyddiol iawn am lywodraethwyr. Mae data asesu athrawon hefyd yn parhau i ddarparu data defnyddiol iawn ar gyfer adolygiadau llywodraethwyr. Dylai'r ddau hyn ffurfio rhan o atebolrwydd penaethiaid i lywodraethwyr a chael eu cynnwys yn adroddiad y pennaeth yng nghyfarfodydd llywodraethwyr.

8.2 Mae gwaith olrhain ac asesu yn ddwy o'r rhannau pwysicaf o addysgu, dysgu ac arweinyddiaeth mewn ysgolion ac mae dull cyson o olrhain yn bwysig. Mae Hill (2013) yn argymhell y dylai dull olrhain ac asesu unigol gael ei fabwysiadu ledled Cymru. Tra y gallai hyn fod yn ddefnyddiol o ran sicrhau cysondeb data, mae nifer o adnoddau olrhain ar gael ac mae angen gwneud gwaith ymchwil gofalus er mwyn sicrhau eu bod yn briodol ac yn effeithiol.

8.3 Yn ogystal â'r data crai o'r fframweithiau Llythrennedd a Rhifedd, bydd cydestun teulu berthnasol 'Setiau Data Craidd' Cymru Gyfan yn hanfodol. Mae gwefan 'Fy Ysgol Leol' yn rhoi gwybodaeth ddefnyddiol iawn - awgrymwn y dylai llywodraethwyr (ac eraill) ei defnyddio'n llawn er mwyn hyrwyddo gwelliannau mewn ysgolion.

8.4 Dylid canmol ffocws diweddar Llywodraeth Cymru ar sicrhau bod llywodraethwyr yn derbyn ac yn deall agweddau allweddol ar ddata perfformiad ysgolion (sy'n rhan o'r hyfforddiant gorfodol). Gan ddefnyddio'r data hyn a ffynonellau perthnasol eraill, dylai llywodraethwyr fod mewn sefyllfa wella i ddwyn arweinwyr ysgolion i gyfrif. Bydd hyn yn hyrwyddo agweddau ymholi a herio o fewn cyrff llywodraethu. Dylai consortia rhanbarthol, sy'n gyfrifol am wella ysgolion a hyfforddi llywodraethwyr, ofyn cwestiynau i gyrff llywodraethu yn hyn o beth, fel y dylai Estyn.

B. Gwybodaeth i Lywodraethwyr

8.5 Mae angen i gyrff llywodraethu gael eu cynorthwyo'n effeithiol. Ar hyn o bryd, awdurdodau lleol sy'n darparu cryn dipyn o'r cymorth hwn. Mae'r system gymorth hon a'r llif gwybodaeth i gyrff llywodraethu wedi aros yr un peth fwy neu lai er gwaethaf y ffaith bod cyfrifoldebau llywodraethwyr wedi cynyddu dros y 30 mlynedd diwethaf.

8.6 Dylai fod ffynhonnell wybodaeth ganolog i lywodraethwyr o ran eu rôl a'u cyfrifoldebau. Rydym yn ymwybodol bod cryn amrywiaeth ledled Cymru ar hyn o bryd. Ymddengys nad yw llywodraethwyr newydd bob amser yn ymwybodol o'r cymorth a roddir gan eu hawdurdodau lleol, y consortia rhanbarthol na Llywodraethwyr Cymru yn ogystal â Chanolfan Cymru Gyfan ar gyfer Hyfforddi Llywodraethwyr ac Ymchwil. Hefyd, ceir amrywiaeth o ddogfennau, gan gynnwys y 'Canllaw i'r Gyfraith', llawlyfr a gwefan Llywodraethwyr Cymru, gwybodaeth gan awdurdodau lleol, Dysgu Cymru (Llywodraeth Cymru) a Cadwyn, a all ddrysu llywodraethwyr a chyrrff llywodraethu. Dylai'r adnoddau hyn gael eu cydgysylltu'n well er mwyn rhoi fframwaith gwybodaeth mwy cydlynol i gyrff llywodraethu. At hynny, gallai fod cysylltiadau mwy amlwg rhwng y ffynonellau hyn o wybodaeth â dolenni ar draws gwefannau, er enghraifft.

8.7 O ystyried y newidiadau ehangach sy'n digwydd ym maes addysg yng Nghymru, disgwyliwn mai'r consortia rhanbarthol fydd yn rhoi cymorth i lywodraethwyr. Yn amlwg, bydd hyn yn lleihau'r amrywiaeth a geir yn y sail wybodaeth o'r 22 o awdurdodau lleol a geir ar hyn o bryd i bedwar consortia rhanbarthol. Mae angen i'r cyrrff rhanbarthol hyn roi cyngor a gwybodaeth safonol i bob llywodraethwr. Disgwyliwn i'r consortia rhanbarthol wneud cryn dipyn i ddatblygu arfer da a byddai mabwysiadu templedi priodol fel y rhai a geir yn yr Atodiadau yn symud llawer o gyrff llywodraethu ymhellach tuag at ddull critigol a heriol o wella ysgolion. Mae'r consortia rhanbarthol mewn sefyllfa ddelfrydol i wella safonau llywodraethu.

8.8 Mae mwy o rôl ar gyfer corff sy'n cynnig cymorth canolog fel yr hyn a gynigir gan Llywodraethwyr Cymru ar hyn o bryd. Fodd bynnag, mae angen i'r rhaniad o ran cyfrifoldebau rhwng yr hyn a gynigir ar lefel consortia rhanbarthol a Llywodraethwyr Cymru gael ei wneud yn glir ac mae'n rhaid iddo fod yn amlwg i lywodraethwyr unigol

a chyrrff llywodraethu ysgolion. Heb ystyried pa gorff sy'n cyflawni'r swyddogaethau, mae'r grŵp hwn o'r farn bod rhai cyfrifoldebau allweddol sydd o bwys gwirioneddol i lywodraethwyr a chyrrff llywodraethu. Yn eu plith mae cyngor lled-gyfreithiol, llinell gymorth i lywodraethwyr, templedi ac enghreifftiau o arfer gorau cyfredol. Hefyd, mae corff sy'n rhoi 'llais' gref i lywodraethwyr a'r rôl bwysig a gyflawnir ganddynt yn hollbwysig. Mae rhaglen gynadledda bresennol llywodraethwyr hefyd yn ddigwyddiad pwysig o ran rhoi gwybodaeth i lywodraethwyr a chyfleoedd iddynt rwydweithio. Ymdrinnir â rôl Llywodraethwyr Cymru wrth wella safonau llywodraethu drwy ddefnyddio Gwobr Efydd Nod Ansawdd bresennol Llywodraethwyr Cymru isod.

Argymhelliad 7:

- A. Dylai'r consortia rhanbarthol roi gwybodaeth i gyrff llywodraethu am berfformiad cymharol ac arfer da ledled Cymru;**
- B. Dylid sicrhau eglurder ynghylch y wybodaeth sydd ar gael i lywodraethwyr gan awdurdodau lleol, consortia rhanbarthol, Llywodraethwyr Cymru a Llywodraeth Cymru;**
- C. Dylid sicrhau eglurder ynghylch y gwasanaethau a gynigir gan Llywodraethwyr Cymru;**
- D. Dylai Llywodraethwyr Cymru godi ymwybyddiaeth o'r corff hwnnw.**

9. Recriwtio llywodraethwyr

9.1 Gall unigolion â sgiliau proffesiynol neu reoli ac eraill yn ehangach a all weithio mewn rôl wirfoddol gynnig sgiliau defnyddiol iawn i gyrff llywodraethu. Fodd bynnag, yn ogystal â'r sector busnes, fel yr amlygwyd yn adolygiad Hill (2013), ceir hefyd y sector cyhoeddus a'r trydydd sector i'w hystyried o ran denu llywodraethwyr.

9.2 Un ffordd o ddenu llywodraethwyr o sefydliadau masnachol fyddai cynnig rhyddhad treth i gwmnïau sy'n rhyddhau staff i ddod yn llywodraethwyr. Petai hyn yn cael ei wneud ar lefel Cymru yn hytrach na lefel y DU, gallai rhyddhad ardrethi busnes fod yn opsiwn amgen.

9.3 Argymhellwn y dylai Llywodraeth Cymru ymchwilio i ffyrdd o wella a chyflymu'r broses o recriwtio llywodraethwyr newydd a'r ffordd orau o hysbysebu swyddi gwag presennol. Hefyd, argymhellwn y dylid cynnal ymgyrch recriwtio ar gyfer llywodraethwyr ac ymgyrch codi ymwybyddiaeth i hyrwyddo'r rôl yn ehangach er mwyn denu llywodraethwyr newydd. Dylai pob awdurdod lleol a chonsortia rhanbarthol ystyried cynnwys man ar eu gwefan sy'n hyrwyddo rôl llywodraethwyr ac yn gwahodd diddordeb. Gellid hefyd annog sefydliadau eraill yn y sector cyhoeddus, y trydydd sector a'r sector preifat i gynnal gweithgareddau tebyg er mwyn helpu i recriwtio llywodraethwyr. Gallai Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru, er enghraifft, gynnwys llywodraethwr-wirfoddolwr fel rhan o'i gyhoeddusrwydd. Gallai pob consortiwm rhanbarthol hefyd enwebu corff llywodraethu fel 'Corff Llywodraethu'r Flwyddyn' a gallai fod gwobr 'Cymru' ar gyfer yr enillydd cyffredinol. Argymhellwn y dylai 'Corff Llywodraethu'r Flwyddyn' ddod yn rhan o wobrau newydd Dewi Sant. Byddai hyn yn adeiladu ar wob'r 'Clerc y Flwyddyn' sy'n bodoli yng Nghymru a hefyd ar lefel y DU.

Argymhelliad 8:

- A. Dylai Llywodraeth Cymru hyrwyddo rôl llywodraethwyr a chodi ymwybyddiaeth o lywodraethwyr ysgolion;**
- B. Dylid cynnal ymgyrch recriwtio er mwyn denu llywodraethwyr newydd;**
- C. Dylai'r consortia rhanbarthol a Llywodraeth Cymru gyflwyno gwobr 'Corff Llywodraethu'r Flwyddyn'.**

10. Gwella cydnabyddiaeth corff llywodraethu

10.1 Mae'n amlwg bod rôl cyrff llywodraethu wedi newid yn sylweddol dros y 30 mlynedd diwethaf a bellach mae disgwyliadau llawer uwch ar gyrff llywodraethu i herio perfformiad, craffu ar ddata a darparu mwy o rôl arwain i ysgolion ar eu taith wella. Mae angen i'r sgiliau llywodraethu a chraffu gael eu hannog a'u meithrin. Un ffordd o wneud hyn yw hyrwyddo ymhellach y cynllun wobrwyo i gyrff llywodraethu. Y cynllun sydd eisoes ar waith yw Gwobr Efydd Nod Ansawdd, a ddyfernir gan Llywodraethwyr Cymru ar hyn o bryd. Ceir rhagor o fanylion am y cynllun hwn yn <http://www.governorswales.org.uk/qmbronze/>. Yn ôl Llywodraethwyr Cymru, mae Gwobr Efydd Nod Ansawdd "yn darparu meincnod y gall cyrff llywodraethu asesu eu heffeithlonrwydd yn ei erbyn. Mae'r Gwobrau o fudd, nid yn unig i weithrediad yr ysgol o ddydd i ddydd, ond hefyd pan fo'r corff llywodraethu yn paratoi am arolygiadau ac asesiadau, fel Estyn, Buddsoddwyr mewn Pobl, i ddangos bod y corff llywodraethu yn diwallu eu gofynion statudol ayyb Mae'r Nod Ansawdd wedi'i ganoli ar archwiliad o bolisi a dogfennaeth weithdrefnol ac mae'n ofynnol i gorff llywodraethu adeiladu portffolio o dystiolaeth yn seiliedig ar restr wirio gyda'r nod o wella effeithlonrwydd y corff llywodraethu. Mae cyflawni'r Wobr Efydd Nod Ansawdd yn ddatliad o lwyddiant y corff llywodraethu a'i rôl o fewn yr ysgol ac o ran codi safonau".

10.2 Argymhellwn y dylai pob corff llywodraethu yng Nghymru fod yn gweithio tuag at Wobr Efydd Nod Ansawdd a dylai'r ysgolion hynny sydd wedi cyflawni'r lefel hon yn barod fod yn symud tuag at Wobr 'Arian' neu 'Aur' Nod Ansawdd pan fyddant ar gael. Awgrymwn y gallai Estyn ystyried cynnwys Gwobr Efydd y Nod Ansawdd fel safon yn ei dyfarniadau am arweinyddiaeth ysgolion wrth arolygu ysgolion. Dylai fod yn ddyhead bod Gwobr Efydd Nod Ansawdd yn dod yn rhagofyniad ar gyfer ysgolion er mwyn sicrhau'r marc uchaf gan Estyn o ran arweinyddiaeth. Dylai Llywodraeth Cymru fod yn hyrwyddo cynllun y Wobr Nod Ansawdd oherwydd nid oes ymwybyddiaeth eang ohono. Gellir cael rhagor o ganllawiau ar y broses o wneud cais am y wobr efydd ar wefan Llywodraethwyr Cymru ([http://www.governorswales.org.uk/media/files/documents/2013-11-04/QM_guidance - September 2013 Welsh.pdf](http://www.governorswales.org.uk/media/files/documents/2013-11-04/QM_guidance_-_September_2013_Welsh.pdf)). Er mwyn sicrhau bod digon o allu

ac adnoddau i asesu'r wobr, dylai Llywodraethwyr Cymru weithio gyda'r consortia er mwyn datblygu'r rolau asesu. Llywodraethwyr Cymru fyddai'r corff dyfarnu.

Argymhelliad 9:

- A. Dylai holl gyrff llywodraethu ysgolion Cymru fod yn gweithio tuag at wobr Efydd Llywodraethwyr Cymru (ac Arian ac Aur wrth iddynt ddatblygu ymhellach);**
- B. Dylai Llywodraethwyr Cymru weithio gyda'r awdurdod lleol neu'r consortia er mwyn helpu gyda'r broses o asesu cyrff llywodraethu unigol ar gyfer y gwobrau.**
- C. Dylai Llywodraeth Cymru godi mwy o ymwybyddiaeth o'r cynllun gwobrau.**

11. Crynodeb

11.1 Cynhaliodd y grŵp hwn ei adolygiad o'r system llywodraethu ysgolion dros gyfnod o 11 mis rhwng mis Tachwedd 2012 a mis Hydref 2013. Ni fydd y newidiadau a argymhellwyd o ran strwythur a phrosesau'r corff llywodraethu yn arwain at lwyddiant dros nos, ond bydd yn sail i welliant parhaus mewn ystod eang o ysgolion. Ystyrir bod datblygu model 'Rhanddeiliaid a Mwy' i Gymru yn briodol, gan adlewyrchu agweddau diwylliannol ac addysgol. Nod y model hwn yw ceisio parhau i gynnwys rhanddeiliaid a sicrhau bod cyrff llywodraethu yn fwy ymwybodol o'r agenda sgiliau ac anghenion cysylltiedig. Awgrymw'n na ddylid ad-drefnu'r broses ar sail y model Rhanddeiliaid a Mwy ar unwaith, ond bydd yn esblygu wrth i anghenion ac olyniaeth newid dros amser. Bydd angen codi ymwybyddiaeth, ymhlith penaethiaid, cadeiryddion, clercod a chyrrff llywodraethu, er mwyn achub yn llawn ar y cyfleoedd a gynnigir gan y strwythurau diwygiedig.

11.2 Yn amlwg, mae sicrhau bod llywodraethwyr yn deall eu rôl yn nhaith wella pob ysgol yn flaenoriaeth allweddol. Mae'r broses o lywodraethu ysgolion wedi newid ac mae'r galwadau ar lywodraethwyr yn cynyddu. Mae'n hanfodol bod y rhai sy'n derbyn y rôl yn gwbl ymwybodol o'r cyfrifoldebau ac yn barod i herio a chraffu mewn ffordd gadarnhaol. Gall hyfforddiant o ansawdd helpu llywodraethwyr i gyflawni eu rôl ac mae angen i lywodraethwyr sicrhau eu bod yn ymgysylltu'n llawn â hyn. Caiff cydnabyddiaeth am y rôl werthfawr a phwysig a gyflawnir gan lywodraethwyr ei hystyried yn wobwr ddigonol gan lawer.

11.3 Wrth i Gymru symud i gam nesaf y broses o ddarparu addysg yn yr adolygiad ôl-Hill, mae'r broses ehangach o adolygu darpariaeth gwasanaethau cyhoeddus hefyd ar waith gan y Comisiwn Gwasanaethau Cyhoeddus. Bydd y Comisiwn hwn yn cael dylanwad pwysig ar y ffordd y trefnir gwasanaethau cyhoeddus yn y dyfodol a bydd pa gorff cyhoeddus sy'n darparu addysg yn gwestiwn allweddol i'w ateb. Blaenoriaeth y Grŵp Gorchwyl a Gorffen hwn yw adolygu'r broses o lywodraethu ysgolion a gwneud argymhellion er mwyn gwneud hyn yn fwy effeithiol.

11.4 Dros y blynyddoedd diwethaf, mae Llywodraeth Cymru wedi cyflwyno llawer o ddiwygiadau yng Nghymru a ddylai gael effaith gadarnhaol ar effeithiolrwydd cyrff llywodraethu ysgolion. Hoffai'r grŵp hwn argymhell adolygiad pellach o'r system llywodraethu ysgolion ymhen dwy flynedd er mwyn pennu'r graddau y mae prosesau llywodraethu wedi gwella dros y cyfnod hwn (hydref 2015).

Cyfeiriadau

Adroddiad Blynyddol Estyn 2011/12.

Adroddiad Estyn 2013 a gyhoeddwyd ar berfformiad TGAU isel mewn Mathemateg, adroddiad ar 7^{fed} Hydref 2013).

Andrews, L. 2011. 'Teaching Makes A Difference', Araith a wnaed ar 3^{ydd} Chwefror i'r Sefydliad Materion Cymreig, Prifysgol Caerdydd.

Arnott, M. 2013. Westminster No More? Governance, Devolution and Delegation in Scotland, *Local Government Studies*, iFirst, (Cyf. 2014).

Cornforth, C. 2001. 'What Makes Boards Effective? An Examination of the Relationships between board inputs, structures, processes and effectiveness in non-profit Organisations', *Corporate Governance*, Cyf.9, Rhif 3, tt.217-227.

Deem, R., K. Brehony ac S. Heath. 1995. *Active Citizenship and the Governing of Schools*, Buckingham: Gwasg y Brifysgol Agored.

Edwards, M. ac R. Clough, 2005. *Corporate Governance and Performance – An Exploration of the Connection in a Public Sector Context*, Canberra: Prifysgol Canberra.

Farrell C.M. a J. Law. 1999. 'Changing Forms of Accountability in Education? A Case Study of LEAs in Wales', *Public Administration*, Cyf.77, Rhif 2, tt.293-310.

Farrell, C.M. 2005. 'Governance in the Public Sector – the Involvement of the Board', *Public Administration*, Cyf.83, Rhif 1 tt.89-110.

Farrell, C. 2013. School Governance in Wales, *Local Government Studies*, iFirst, 1-15, (Cyf. 4, 2014).

Hill, R. 2013. *Darparu Gwasanaethau Addysg yng Nghymru yn y Dyfodol*, Caerdydd: Llywodraeth Cymru.

Maile, S. 2000. 'Accountability: An Essential Aspect of School Governance', *South African Journal of Education*, Cyf.22, Rhif 4, tt.326-331.

OFSTED, 2013. *School Inspection Handbook*, Llundain: Ofsted.

Pwyllgor Addysg Tŷr Cyffredin, 2013 'The Role of School Governing Bodies', Second report of session 2013-2014, Cyfrol 1, <http://www.publications.parliament.uk/pa/cm201314/cmselect/cmeduc/365/365.pdf>

Ranson, S., C. Farrell, N. Peim a P. Smith. 2005. "Does Governance Matter for School Improvement?" *School Effectiveness and Improvement*, Cyf.16, Rhif 3, tt.305-325.

Ranson, S. ac C. Crouch. 2009. *Towards a New Governance of Schools in the Remaking of Civil Society*, Prifysgol Warwick: Yr Athrofa Addysg a'r Sefydliad Llywodraethu a Rheolaeth Gyhoeddus.

Rheoliadau Addysg (Cylch Gwaith) (Cymru) 2000, Caerdydd: Cynulliad Cenedlaethol Cymru.

Rheoliadau Ffedereiddio 2010 *Rheoliadau Ffedereiddio Ysgolion a Gynhelir a Diwygiadau Amrywiol (Cymru)*, Caerdydd: Llywodraeth Cymru.

Taylor, M. ac N. O'Sullivan, 2009. 'How should National Governing Bodies of Sport be Governed in the UK? An Exploratory Study of Board Structure', *Corporate Governance: An International Review*, Cyf.17, Rhif 6, tt.681-693.

Y Ganolfan Craffu Cyhoeddus, 2006. '*Strengthening Public Accountability on the School Governing body*', Llundain: Y Ganolfan Craffu Cyhoeddus.

Zhang, P. 'Board Performance and Strategic Tasks Performance', *Corporate Governance*, Cyf.18, Rhif 5 tt.473-487.

Atodiad I: Cymdeithas

Genedlaethol y Llywodraethwyr – templed archwilio sgiliau

Archwiliad Sgiliau

| Maes arbenigedd | Lefel profiad: 'Dim, sylfaenol, cymedrol, helaeth' | Tystiolaeth, gan gynnwys unrhyw hyfforddiant a gafwyd | Unrhyw hyfforddi ant sydd ei angen |
|---|---|---|------------------------------------|
| Sgiliau, gwybodaeth a phrofiad cyffredinol Ni ddisgwylir i unrhyw lywodraethwr feddu ar bob un o'r rhain, ond ymhlith y tîm o lywodraethwyr dylai'r rhain ymddangos a gellir eu hystyried yn hanfodol i'r corff llywodraethu cyfan. | | | |
| Profiad o lywodraethu (gan gynnwys mewn sectorau eraill) | | | |
| Cynllunio strategol | | | |
| Hunanwerthuso a/neu asesu effaith | | | |
| Dadansoddi data | | | |
| Profiad o recriwtio staff | | | |
| Rheoli perfformiad a) Staff b) Trefniadaeth | | | |
| Cysylltiadau cymunedol | | | |
| Cadeirio | | | |
| Arweinyddiaeth | | | |
| Hyfforddi/mentora neu DPP | | | |
| Negodi a chyfyngu | | | |
| Sgiliau cyfathrebu, gan gynnwys gwrando | | | |
| Datrys problemau a/neu greadigrwydd | | | |
| Y gallu i ddylanwadu | | | |
| Delio â chwynion, achwynion neu apeliadau | | | |
| Asesu risg | | | |
| Gwybodaeth am yr ysgol hon | | | |
| Safbwynt rhieni: rhai presennol yr ysgol | | | |
| Gwybodaeth am y gymuned leol | | | |

| | | | |
|--|--|--|--|
| Gwybodaeth am ffynonellau gwybodaeth/data perthnasol | | | |
| Gwybodaeth am yr economi leol/rhanbarthol | | | |
| Gwybodaeth neu brofiad arbenigol | | | |
| Yn hanfodol ar gyfer corff llywodraethu cyfan: Rheolaeth ariannol / cyfrifyddu | | | |
| Mae'r canlynol yn ddefnyddiol neu, mewn rhai achosion, yn ddymunol, ond nid o reidrwydd yn hanfodol ar gyfer corff llywodraethu. Mae'r rhain yn hanfodol er mwyn gallu herio, monitro a chraffu'n effeithiol. <u>Nid</u> ydynt yn ofynnol er mwyn cyflawni tasgau gweithredol neu i gymryd lle arbenigedd allanol. | | | |
| Rheoli safleoedd a chyfleusterau | | | |
| Arbenigedd ym maes adnoddau dynol | | | |
| Caffael/prynu | | | |
| Cyfreithiol | | | |
| TGCh a/neu systemau rheoli gwybodaeth | | | |
| Cysylltiadau cyhoeddus a marchnata | | | |
| Lleoliadau gwaith/cynllunio gyrfa | | | |
| Addysgu ac addysgeg | | | |
| Anghenion addysgol arbennig | | | |
| Gwasanaethau neu weithgareddau plant a phobl ifanc (mewn unrhyw sector) | | | |
| Gwasanaethau iechyd (yn arbennig o berthnasol mewn ysgolion arbennig) | | | |
| Diogelu | | | |
| Ysgolion cynradd - sector meithrin Uwchradd - AB ac AU | | | |
| Rheoli prosiectau | | | |
| Iechyd a diogelwch | | | |
| Sicrhau ansawdd | | | |
| Arolygu, ymgynghori a/neu ymchwil | | | |
| Arall: rhwch fanylion | | | |

Ni fydd gan unrhyw unigolyn yr holl sgiliau hyn! Mae'r ffordd y caiff yr ymarfer hwn ei gyflwyno yn hanfodol fel nad oes unrhyw lywodraethwr yn teimlo ei fod wedi'i danseilio; mae'n bwysig gwerthfawrogi pob safbwynt. Mae'r corff llywodraethu yn dîm ac mae angen inni sicrhau, rhyngom, fod yr holl sgiliau a gwybodaeth angenrheidiol wedi'u cwmpasu o amgylch y bwrdd. Nid diben llywodraethwyr yw darparu gwasanaethau proffesiynol pro-bono. Os caiff bwlch mewn sgiliau ei nodi,

yndylai'r swydd wag nesaf sy'n codi gael ei defnyddio, os yn bosibl, i lenwi'r bwlch hwnnw. Os nad oes gennych gysylltiadau lleol, dylech gysylltu â Siop Un Stop Llywodraethwyr Ysgolion. Gallai'r un rhestr hon o feini prawf hefyd gael ei defnyddio at ddibenion recriwtio er mwyn pennu a oes gan yr ymgeiswyr y sgiliau a geisir.

Atodiad II: Templed cynllun gweithredu gwella ysgol

Cynllun Gweithredu Gwella Ysgol Corff Llywodraethu Ysgol Gynradd Glasllwch
2013-2014 (atgynhyrchwyd drwy garedigrwydd yr Ysgol).

Cynllun Gweithredu Gwella Ysgol Corff Llywodraethu Ysgol Gynradd Glasllwch 2013-2014

Targed ar gyfer gwella: Datblygu ymhellach rôl y Corff Llywodraethu wrth gyfrannu at arweinyddiaeth a chyfeiriad strategol yr ysgol drwy wybodaeth a dealltwriaeth o'r canlynol:

Rôl a dyletswyddau'r Corff Llywodraethu

Perfformiad safonau disgyblion ar draws yr ysgol o gymharu â Theulu Set Data Graidd, Awdurdod Lleol (ALI) a Chymru

Sut y caiff lles disgyblion ei fesur ar draws yr ysgol

Yr angen i gynnal a gwella safonau darparu ym mhob agwedd ar wella'r ysgol.

Yr angen i roi blaenoriaeth uchel i hyfforddi a datblygu llywodraethwyr

| Cwestiwn Allweddol | Dangosydd Ansawdd | C1 Enw | Agwedd | | Meini Prawf Llwyddiant sy'n gysylltiedig â'r Cwestiwn Allweddol | Cam Gweithredu | Dyddiad Targed | Statws | Gwerthusiad |
|--------------------|-------------------|---------|--------|--|---|--|----------------------------|--------|-------------|
| CA1 - Canlyniadau | 1.1 | Safonau | 1.1.1 | Canlyniadau a thueddiadau mewn perfformiad o'u cymharu â chyfartaleddau cenedlaethol, darparwyr tebyg a chyrhaeddiad blaenorol | Mae gan lywodraethwyr ddealltwriaeth glir o berfformiad disgyblion fel ysgol ac o gymharu â pherfformiad lleol, AALI a chenedlaethol (data ysgol, AALI, teulu, cenedlaethol). Mae hyn yn cynnwys dealltwriaeth o safonau rhywedd, AAY, SIY a grwpiau eraill | UDA i gyflwyno Asesiadau Athrawon Ysgol i lywodraethwyr ar gyfer y flwyddyn academaidd lawn | Tymor yr hydref - Tachwedd | | |
| | 1.1 | Safonau | 1.1.2 | Safonau grwpiau o ddysgwyr | | UDA i gyflwyno dadansoddiad o ddata teulu craidd, data proffil AALI i lywodraethwyr - Medi/Hyd | Tymor yr hydref - Tachwedd | | |
| | 1.1 | Safonau | 1.1.3 | Cyflawni cynnydd mewn dysgu | Bydd gan lywodraethwyr ddealltwriaeth glir o gynnydd disgyblion a'r safonau a gyflawnwyd wrth gyflawni nodau dysgu cytûn (pennu ac olrhain targedau, rhaglenni dal i fyny) a datblygiad eu sgiliau personol, cymdeithasol a dysgu | Bydd y gwerthusiadau uchod yn arwain at nodi blaenoriaethau ar gyfer pennu targedau, rhaglenni dal i fyny | Tymor yr hydref - Tachwedd | | |
| | 1.1 | Safonau | 1.1.4 | Sgiliau | | Pennaeth a Chadeirydd y Llywodraethwyr i gyfarfod â'r Gwasanaeth Cyflawni Addysg er mwyn cyflwyno targedau | Tymor yr hydref | | |

| | | | | | | | | |
|-----|---------|-------|---|--|---|----------------------------|--|--|
| 1.1 | Safonau | 1.1.5 | Cymraeg | | Targedau i gael eu monitro gan adrodd yn ôl i'r corff llywodraethu ar gynnydd drwy gydol y flwyddyn | Bob tymor | | |
| 1.2 | Lles | 1.2.1 | Agweddau at gadw'n iach ac yn ddiogel | Bydd gan lywodraethwyr ddealltwriaeth glir o rôl a gweithgareddau'r Ysgol ac Eco Gyngorau a'u heffaith ar ganlyniadau disgyblion gwell, yn enwedig rhai lles | Cyngor yr Ysgol a'r Eco Bwyllgor i gyfarfod â'r corff llywodraethu er mwyn trafod cynnydd yn erbyn cynlluniau blynyddol, cofnodion cyfarfodydd, cynlluniau gweithredu CDY, nodau, mentrau | Tymor y gwanwyn - Ionawr | | |
| 1.2 | Lles | 1.2.2 | Cymryd rhan mewn dysgu a'i fwynhau | | Manylion gweithgareddau clybiau ar ôl ysgol a gweithgareddau cwricwlwm datblygedig amser ysgol i gael eu rhannu â'r corff llywodraethu | Tymor yr haf | | |
| 1.2 | Lles | 1.2.2 | Cymryd rhan mewn dysgu a'i fwynhau | | Rhannu'r broses o olrhain lles - holiaduron disgyblion, carfannau dysgu, gweithgareddau llais y disgybl, asesiadau SEAL | Tymor y gwanwyn | | |
| 1.2 | Lles | 1.2.2 | Cymryd rhan mewn dysgu a'i fwynhau | Bydd gan lywodraethwyr ddealltwriaeth glir a byddant yn sicrhau canlyniadau priodol o ran presenoldeb, ymddygiad disgyblion. | Olrhain a rhannu ffigurau presenoldeb gan nodi unrhyw beth sy'n peri pryder | Bob tymor | | |
| 1.2 | Lles | 1.2.3 | Ymglymiad cymunedol a gwneud penderfyniadau | | Rhannu cynlluniau pontio clystyrau a threfniadau pontio ag ysgolion eraill | Tymor yr hydref - Medi | | |
| 1.2 | Lles | 1.2.4 | Sgiliau cymdeithasol a bywyd | | UDA i gyflwyno dadansoddiad o arolwg PASS (Agweddau Disgyblion tuag at eu Hunain a'r Ysgol) | Tymor yr hydref - Tachwedd | | |
| 1.2 | Lles | Pawb | Pawb | Bydd gan lywodraethwyr ddealltwriaeth glir o'r polisiau ysgol sy'n atgyfnerthu lles disgyblion | Adolygu polisiau sy'n gysylltiedig â lles: | Gweler Amserlen Polisi | | |
| 1.2 | Lles | Pawb | Pawb | | Sicrhau bod yr holl rwymedigaethau statudol ar waith. | Tymor yr haf - CCB | | |

CA2 - Darpariaeth

| | | | | | | | | |
|-----|-----------------|-------|--|--|--|---------------------------------|--|--|
| 2.1 | Profiadau Dysgu | 2.1.1 | Diwallu anghenion dysgwyr, cyflogwyr/y gymuned | Bydd llywodraethwyr yn cyfrannu at flaenoriaethau yn y CDY a bydd ganddynt ddealltwriaeth glir ohonynt | HMS CDY blynyddol staff/llywodraethwyr ar y cyd | Tymor yr haf - CDY Mai | | |
| 2.1 | Profiadau Dysgu | 2.1.2 | Darpariaeth ar gyfer sgiliau | Bydd gan lywodraethwyr ddealltwriaeth o'r ffordd y caiff ymagweddau newydd yn y CDY eu rhoi ar waith mewn dosbarthiadau - gweithredu strategaethau llythrennedd a rhifedd newydd | Llywodraethwyr Cyswllt wedi'u nodi ac amser wedi'i bennu iddynt gyfarfod â staff priodol er mwyn trafod a datblygu cynlluniau gweithredu, edrych ar ddogfennaeth gynllunio | Tymor yr hydref - Medi | | |
| 2.1 | Profiadau Dysgu | 2.1.3 | Darpariaeth Gymraeg a'r dimensiwn Cymreig | | Gwahodd llywodraethwyr i arsylwi dysgu ac addysgu mewn dosbarthiadau a grwpiau ymyrryd | Bob tymor | | |
| 2.1 | Profiadau Dysgu | 2.1.4 | Addysg ar gyfer datblygu cynaliadwy a dinasyddiaeth fyd-eang | Bydd gan lywodraethwyr wybodaeth gyfredol a dealltwriaeth o gynnydd o fewn blaenoriaethau CDY | Staff i gyflwyno datblygiadau mewn pynciau a meysydd dysgu i'r Corff Llywodraethu drwy gydol y flwyddyn | Bob tymor | | |
| 2.1 | Profiadau Dysgu | | | | Polisiau cwricwlwm i gael eu hadolygu a'u diweddarau yn ôl yr amserlen | Gweler yr Adnodd Orlhain Polisi | | |
| 2.2 | Addysgu | 2.2.1 | Ystod ac ansawdd dulliau addysgu | Bydd gan bob llywodraethwr ddealltwriaeth glir o'r dulliau addysgu yn yr ysgol | Adroddiadau a chyflwyniadau gan y Pennaeth i'r Corff Llywodraethu ar ddulliau addysgu | Bob tymor | | |
| 2.2 | Addysgu | 2.2.2 | Asesu dysgu ac asesu ar gyfer dysgu | Bydd gan Lywodraethwyr Cyswllt Asesu ddealltwriaeth fanwl o'r agenda asesu ar gyfer dysgu a sut y caiff ei rhoi ar waith | Llywodraethwr Cyswllt Asesu, Cofnodi ac Adrodd i gyfarfod â'r Pennaeth a'r Cynghorydd Cyswllt | Tymor yr hydref | | |
| 2.2 | Addysgu | 2.2.2 | Asesu dysgu ac asesu ar gyfer dysgu | Bydd gan bob llywodraethwr wybodaeth am weithdrefnau pennu targedau, dulliau asesu, data a dadansoddi data, a materion sy'n deillio o hynny | Bydd adroddiadau a chyflwyniadau'r pennaeth yng nghyfarfodydd y llywodraethwyr yn hysbysu llywodraethwyr am brosesau pennu targedau ac asesu | Tymor yr hydref - Tachwedd | | |

| | | | | | | | | |
|-----|--------------------------|-------|---|--|--|---------------------------------|--|--|
| 2.2 | Addysgu | 2.2.2 | Asesu dysgu ac asesu ar gyfer dysgu | Bydd gan bob llywodraethwr ddealltwriaeth glir o safbwyntiau rhanddeiliaid amrywiol - rhieni, disgyblion, staff | Cyflwynir dadansoddiad o holiaduron rhieni a phlant a chânt eu trafod | Bob tymor | | |
| 2.2 | Addysgu | 2.2.2 | Asesu dysgu ac asesu ar gyfer dysgu | Bydd gan lywodraethwyr ddealltwriaeth glir o effaith mentrau o lais y disgybl, cyngor yr ysgol, yr eco bwyllgor | Cyflwynir canlyniadau gweithgareddau llais y disgybl i'r Corff Llywodraethu | Tymor y gwanwyn | | |
| 2.2 | Addysgu | 2.2.2 | Asesu dysgu ac asesu ar gyfer dysgu | | Cyflwynir mentrau Cyngor yr Ysgol a'r Eco Bwyllgor i'r Corff Llywodraethu | Bob tymor | | |
| 2.3 | Gofal, Cymorth a Chyngor | 2.3.1 | Darpariaeth ar gyfer iechyd a lles | Bydd gan Lywodraethwr AAY wybodaeth a dealltwriaeth o blant AAA, plant sy'n derbyn gofal a phlant E2L - ar y gofrestr a datganiadau, mentrau cymorth yn yr ysgol a'r cynnydd a wneir gan blant | Llywodraethwyr Cyswllt AAY i gyfarfod â Chydgysylltydd AAY er mwyn trafod pob agwedd ar AAY | Bob tymor | | |
| 2.3 | Gofal, Cymorth a Chyngor | 2.3.2 | Gwasanaethau, gwybodaeth ac arweiniad arbenigol | | Llywodraethwyr Cyswllt AAY i gael hyfforddiant llywodraethwyr AAY | Bob tymor | | |
| 2.3 | Gofal, Cymorth a Chyngor | 2.3.3 | Trefniadau diogelu | | Adolygu polisiau a gweithdrefnau AAY gyda'r Corff Llywodraethu | Gweler yr Adnodd Olrhain Polisi | | |
| 2.3 | Gofal, Cymorth a Chyngor | 2.3.4 | Anghenion dysgu ychwanegol | Bydd gan bob llywodraethwr wybodaeth a dealltwriaeth o AAY yn Ysgol Glasllwch - polisiau a gweithdrefnau, dyletswyddau statudol, heriau | Bydd adroddiadau a chyflwyniadau'r pennaeth yng nghyfarfodydd y llywodraethwyr yn hysbysu llywodraethwyr am AAY yn Ysgol Glasllwch | Bob tymor | | |
| 2.4 | Amgylchedd Dysgu | 2.4.1 | Ethos, cydraddoldeb ac amrywiaeth | Bydd pob llywodraethwr yn ymwybodol o bolisi a gweithdrefnau lechyd a Diogelwch | Llywodraeth IaD i gyfarfod â'r Pennaeth er mwyn trafod IaD bob tymor | Bob tymor | | |
| 2.4 | Amgylchedd Dysgu | 2.4.2 | Amgylchedd ffisegol | Bydd y llywodraethwr IaD ynghlwm wrth asesiadau risg, archwiliadau, materion ysgol cyffredinol | Llywodraethwr IaD i adolygu asesiadau risg yn ôl yr amserlen | Bob tymor | | |

| | | | | | | | | | |
|----------------|-----|------------------|-------|--|---|--|-------------------------------------|--|--|
| | 2.4 | Amgylchedd Dysgu | 2.4.2 | Amgylchedd ffisegol | Llywodraethwyr ynghlwm wrth benderfyniadau sy'n sicrhau bod defnydd digonol ac addas yn cael ei wneud o adnoddau ac adeiladau | Llywodraethwyr i adolygu cynllun a pholisi hygyrchedd bob blwyddyn | Gweler yr Adnodd Olrhain Polisi | | |
| | 2.4 | Amgylchedd Dysgu | 2.4.2 | Amgylchedd ffisegol | Llywodraethwyr ynghlwm wrth benderfyniadau sy'n sicrhau bod adeiladau yn addas at y diben | Llywodraethwyr i gynnal arolwg blynyddol o adeiladau. | Tymor yr hydref - Tachwedd (Cyllid) | | |
| | 2.4 | Amgylchedd Dysgu | 2.4.2 | Amgylchedd ffisegol | Llywodraethwyr ynghlwm wrth y gwaith o lunio rhaglen dreigl adnewyddu adeiladau | | Bob tymor | | |
| Arweinyddiaeth | 3.1 | Arweinyddiaeth | 3.1.1 | Arweinyddiaeth strategol ac effaith yr arweinyddiaeth | Bydd gan bob Lywodraethwr ddealltwriaeth glir o'i rolau a'i gyfrifoldebau a bydd yn bodloni gofynion rheoliadol a chyfreithiol bob blwyddyn | Pob Llywodraethwr i gael hyfforddiant Cyflwyniad i Lywodraethu | Bob tymor | | |
| | 3.1 | Arweinyddiaeth | 3.1.2 | Llywodraethwyr neu fyrddau goruchwyllo eraill | | Y corff Llywodraethu i gyfarfod unwaith y tymor o leiaf | Bob tymor | | |
| | 3.1 | Arweinyddiaeth | 3.1.3 | Cyflawni blaenoriaethau cenedlaethol a lleol | | Bydd adroddiadau a chyflwyniadau'r Pennaeth yng nghyfarfodydd y llywodraethwyr yn hysbysu llywodraethwyr o flaenoriaethau cenedlaethol a lleol | Bob tymor | | |
| | 3.1 | Arweinyddiaeth | 3.1.3 | Cyflawni blaenoriaethau cenedlaethol a lleol | | Dyrannu timau a llywodraethwyr cyswllt | Tymor yr haf - CCB | | |
| | 3.2 | Gwella Ansawdd | 3.2.1 | Hunanarfarnu, gan gynnwys gwranddo ar ddysgwyr ac eraill | Bydd pob Llywodraethwr yn mynychu o leiaf un sesiwn hyfforddi bob blwyddyn | Cyfleoedd hyfforddi llywodraethwyr, sy'n berthnasol i'r unigolyn ac i'r ysgol, i gael eu nodi drwy gydol y flwyddyn | Bob tymor | | |
| | 3.2 | Gwella Ansawdd | 3.2.2 | Cynllunio a sicrhau gwelliant | Mae gan Lywodraethwyr berchenogaeth o gynllun datblygu'r ysgol ac maent yn cyfrannu at y gwaith o'i greu gan ddeall y blaenoriaethau sy'n deillio o faterion a nodwyd yn yr hunanwerthusiad | HMS CDY blynyddol staff/llywodraethwyr ar y cyd | Tymor yr haf - CDY Mai | | |

| | | | | | | | | |
|-----|----------------------------|-------|--|---|---|--------------------------|--|--|
| 3.2 | Gwella Ansawdd | 3.2.3 | Cymryd rhan mewn rhwydweithiau arfer proffesiynol | Pob Llywodraethwr i feddu ar ddealltwriaeth glir o Gynllun Datblygu'r Ysgol a chael y wybodaeth ddiweddaraf amdano'n rheolaidd gan eu galluogi i herio perfformiad a chynnydd | Llywodraethwyr yn ymwybodol o gysylltiadau â llywodraethwyr ysgol eraill, â Chymdeithas Llywodraethwyr Casnewydd, Llywodraethwyr Cymru. | Bob tymor | | |
| 3.2 | Gwella Ansawdd | 3.2.3 | Cymryd rhan mewn rhwydweithiau arfer proffesiynol | | CDPau o fewn yr ysgol a rhwng Glasllwch, ysgolion yn y Teulu Data Craidd ac ysgolion eraill i gael eu rhannu â llywodraethwyr | Bob tymor | | |
| 3.3 | Gweithio mewn partneriaeth | 3.3.1 | Partneriaethau strategol | | Gwahoddir Llywodraethwyr i HMS yr ysgol fel y bo'n briodol | Bob tymor | | |
| 3.3 | Gweithio mewn partneriaeth | 3.3.2 | Cynllunio, darparu adnoddau a sicrhau ansawdd ar y cyd | | Aelodau tîm i drefnu cyfarfodydd â llywodraethwyr cyswllt drwy gydol y flwyddyn | Bob tymor | | |
| 3.3 | Gweithio mewn partneriaeth | 3.3.2 | Cynllunio, darparu adnoddau a sicrhau ansawdd ar y cyd | | Dogfennaeth allweddol i gael ei dosbarthu a'i thrafod mewn cyfarfodydd | Bob tymor | | |
| 3.3 | Gweithio mewn partneriaeth | 3.3.2 | Cynllunio, darparu adnoddau a sicrhau ansawdd ar y cyd | | Fframweithiau Effeithiolrwydd Ysgolion ac Arolygu Cyffredin i gael eu rhannu â phob Corff Llywodraethu | Tymor y gwanwyn - Ionawr | | |
| 3.3 | Gweithio mewn partneriaeth | 3.3.2 | Cynllunio, darparu adnoddau a sicrhau ansawdd ar y cyd | | Cynlluniau Gweithredu yn unol â'r Fframwaith Arolygu Cyffredin i gael eu llunio gan dimau sy'n cynnwys llywodraethwyr os yn bosibl / eu rhannu â phob llywodraethwr | Gwanwyn | | |
| 3.3 | Gweithio mewn partneriaeth | 3.3.2 | Cynllunio, darparu adnoddau a sicrhau ansawdd ar y cyd | | Hunanwerthusiad llywodraethwyr i gael ei gynnal ar ddiwedd pob cyfarfod llywodraethwyr | Bob tymor | | |
| 3.3 | Gweithio mewn partneriaeth | 3.3.2 | Cynllunio, darparu adnoddau a sicrhau ansawdd ar y cyd | | Llywodraethwyr i chwarae rhan yn y broses hunanwerthuso a'r gwaith o adolygu pynciau a meysydd dysgu yn ystod diwrnodau CDY - tymor yr haf | Tymor yr haf - CDY Mai | | |

| | | | | | | | | |
|-----|----------------------------|-------|--|---|--|---------------------------|--|--|
| 3.3 | Gweithio mewn partneriaeth | 3.3.2 | Cynllunio, darparu adnoddau a sicrhau ansawdd ar y cyd | | Llywodraethwyr ynghlwm wrth y cynllun gweithredu hunanwerthuso ddiwedd mis Gorffennaf 2012 ac yn llunio cynllun gweithredu newydd ar gyfer mis Medi 2012 | Tymor yr haf - Gorffennaf | | |
| 3.4 | Rheoli Adnoddau | 3.4.1 | Rheoli staff ac adnoddau | Pob pwyllgor i gyfarfod yn unol â chanllawiau AALI | Cofnodion Pwyllgor i gael eu cyflwyno i'r Corff Llywodraethu | Bob tymor | | |
| 3.4 | Rheoli Adnoddau | 3.4.1 | Rheoli staff ac adnoddau | Pob llywodraethwr i feddu ar wybodaeth gadarn am y ffordd y defnyddir staff o fewn yr ysgol gyfan | Adroddiadau a chyflwyniadau gan y Pennaeth i'r Corff Llywodraethu ar staffio, gan gynnwys adrannau a ddosberthir yn Rhan 2 lle y bo'n briodol | Bob tymor | | |
| 3.4 | Rheoli Adnoddau | 3.4.1 | Rheoli staff ac adnoddau | Mae gan y Corff Llywodraethu ddealltwriaeth glir o waith Rheoli Perfformiad staff, gan gynnwys y Pennaeth | Llywodraethwyr Cyswllt Rheoli Perfformiad i gyflawni gwaith RhP gyda'r Pennaeth | Tymor yr hydref | | |
| 3.4 | Rheoli Adnoddau | 3.4.1 | Rheoli staff ac adnoddau | | Adroddiad y Pennaeth i'r Corff Llywodraethu ar weithgareddau RhP yn yr ysgol | Bob tymor | | |
| 3.4 | Rheoli Adnoddau | 3.4.2 | Gwerth am arian | Y Pwyllgor Cyllid i gyfarfod bob hanner tymor a meddu ar gyfeiriad clir o ran gwariant yr ysgol a sicrhau eu bod yn darparu gwerth am arian | Adroddiad gan y Pwyllgor Cyllid i'r Corff Llywodraethu | Bob tymor | | |
| 3.4 | Rheoli Adnoddau | 3.4.2 | Gwerth am arian | Mae'r Llywodraethwyr yn ymwybodol o effaith CDY ar welliannau meintiol ymhob agwedd ar ddarpariaeth yr ysgol | Mae adroddiadau a chyflwyniadau gan y Pennaeth i'r Corff Llywodraethu yn sicrhau bod CDY yn cael ei fonitro a'i adolygu. | Bob tymor | | |
| 3.4 | Rheoli Adnoddau | 3.4.2 | Gwerth am arian | Mae'r llywodraethwyr yn gallu cynnal gwerthusiad effeithiol o p'un a yw'r ysgol yn darparu gwerth am arian | Adroddiad gan y Pwyllgor Cyllid i'r Corff Llywodraethu | Bob tymor | | |

| | | | | | | | | | |
|--|-----|-----------------|-------|-----------------|---|---|-----------|--|--|
| | 3.4 | Rheoli Adnoddau | 3.4.2 | Gwerth am arian | Mae'r llywodraethwyr ynghlwm wrth benderfyniadau sy'n sicrhau bod defnydd digonol ac addas yn cael ei wneud o staff, adnoddau dysgu ac adeiladau. | Terfynau gwario a throsglwyddo i gael eu pennu ar gyfer y Pennaeth a'r Pwyllgor Cyllid. Adroddiadau gan y Pennaeth i'r Corff Llywodraethu ar y defnydd o adnoddau | Bob tymor | | |
|--|-----|-----------------|-------|-----------------|---|---|-----------|--|--|

Atodiad III: Sut mae OFSTED yn barnu perfformiad corff llywodraethu

Yn llawlyfr Ofsted ar arolygu, nodir, wrth asesu ansawdd llywodraethu mewn ysgol, y dylai arolygwyr ystyried “the effectiveness of governance including how well governors:

- ensure clarity of vision, ethos and strategic direction
- contribute to the school’s self-evaluation and understand its strengths and weaknesses
- support and strengthen school leadership
- provide challenge and hold the headteacher and other senior leaders
- to account for improving the quality of teaching, pupils’ achievement and pupils’ behaviour and safety
- use performance management systems, including the performance management of the headteacher, to improve teaching, leadership and management
- ensure solvency and probity and that the financial resources made available to the school are managed effectively
- operate in such a way that statutory duties are met and priorities are approved
- engage with key stakeholders
- use the pupil premium and other resources to overcome barriers to learning, including reading, writing and mathematics.”

(*School Inspection Handbook*, Ebrill 2013, para 127)

Atodiad IV: Templed arfarnu aelodau bwrdd unigol

Adolygiad Cymdeithas Dai (mae'r elfen hon o ffurflen fanylach wedi'i chyflwyno isod)

ARFARNIAD AELODAU BWRDD UNIGOL

Sut rydych yn sgorio eich perfformiad eich hun yn y meysydd allweddol canlynol?

- 6.1 Paratoi ar gyfer cyfarfodydd yn llawn ymlaen llaw
- 6.2 Arfer 'dyletswydd gofal' fel Aelod Bwrdd mewn ffordd gydwybodol
- 6.3 Gwneud cyfraniadau priodol ac iddynt ffocws
- 6.4 Ymchwilio i faterion neu gynigion nad ydynt yn glir ichi mewn ffordd adeiladol
- 6.5 Gweithio fel rhan o dîm y Bwrdd
- 6.6 Defnyddio eich profiad a'ch sgiliau i wella penderfyniadau
- 6.7 Gwrando ar farn eraill
- 6.8 Herio mewn ffordd adeiladol pan na fyddwch yn cytuno
- 6.9 Defnyddio cyfleoedd i ddysgu a datblygu
- 6.10 Derbynn cydgyfrifoldeb am benderfyniadau
- 6.11 Mynychu cyfarfodydd
- 6.12 Arsylwi cyfrinachedd
- 6.13 Cefnogi cydraddoldeb ac amrywiaeth
- 7.1 Yn eich barn chi, sut y bu'r flwyddyn ddiwethaf?
- 7.2 Pa gryfderau rydych yn eu cynnig i'r Bwrdd?
- 7.3 A oes unrhyw agweddau ar berfformiad sy'n peri pryder i chi?
- 7.4 A ydych wedi teimlo rhwystredigaeth o ran yr hyn a gyflawnwyd gennych?
- 7.5 A oes unrhyw beth a allai wella eich perfformiad?

7.6 Rhowch wybod inni os oes unrhyw beth y gallwn ei wneud i'ch helpu i gyflawni eich rôl.